**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Bil yr Amgylchedd (Cymru) Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Hydref 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddAmgylch

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Bil yr Amgylchedd (Cymru) Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Hydref 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: cynnal a datblygu amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru a chynllunio ar ei gyfer.

---

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Alun Ffred Jones (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Arfon



**Jeff Cuthbert**
Llafur Cymru
Caerffili



**Llyr Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Janet Haworth**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**William Powell**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **7**

**Rhagymadrodd** ..... **14**

Cylch gorchwyl ..... 14

Ymagwedd y Pwyllgor ..... 15

**1. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth** ..... **16**

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud y Bil hwn ..... 16

Ein barn ni ..... 16

Egwyddorion cyffredinol ..... 17

Ein barn ni ..... 19

**2. Rhan 1: Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol** ..... **20**

Diffinio 'bioamrywiaeth' ac 'ecosystem' ..... 20

Ein barn ni ..... 21

Diwygio'r amcan ynglŷn â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ..... 22

Ein barn ni ..... 22

Tirluniau ..... 22

Ein barn ni ..... 23

Egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol ..... 23

Ein barn ni ..... 24

Darpariaethau ymgynghori ..... 24

Ein barn ni ..... 25

Iaith amodol ..... 26

Ein barn ni ..... 27

Diben CNC ..... 27

Ein barn ni ..... 28

Dyletswydd Bioamrywiaeth ..... 30

Ein barn ni ..... 31

Adran 7 ..... 31

Ein barn ni ..... 32

Targedau Bioamrywiaeth Statudol ..... 33

Ein barn ni .......... 34
Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol .......... 34
Ein barn ni .......... 35
Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol .......... 36
Ein barn ni .......... 36
Datganiadau Ardal .......... 37
Rhychwant .......... 38
Ein barn ni .......... 38
Ein barn ni .......... 39
Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus .......... 39
Ein barn ni .......... 40
Amserlenni .......... 41
Ein barn ni .......... 41
Adnoddau CNC .......... 41
Ein barn ni .......... 42
Cynlluniau Arbrofol .......... 43
Ein barn ni .......... 43
**3. Rhan 2: Newid Hinsawdd .......... 45**
Targed 2050 .......... 45
Ein barn ni .......... 46
Targedau Interim .......... 46
Ein barn ni .......... 47
Allyriadau i'w cynnwys .......... 48
Ein barn ni .......... 48
Cyllidebau Carbon .......... 48
Amseru .......... 48
Ein barn ni .......... 49
Cyfrif allyriadau net Cymru .......... 50
Ein barn ni .......... 51
Paramedrau a chanllawiau .......... 51

Ein barn ni ... 52
Adrodd, Monitro a Chraffu ... 52
Ein barn ni ... 53
Hedfan a Morgludiant ... 53
Ein barn ni ... 54
Corff cynghori ... 54
Ein barn ni ... 55
Addasu ... 55
Ein barn ni ... 56
**4. Rhan 3: Bagiau Siopa ... 57**
Ein barn ni ... 58
**5. Rhan 4: Casglu a gwaredu gwastraff ... 59**
Gwahanu gwastraff ... 59
Ein barn ni ... 60
Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos ... 60
Ein barn ni ... 62
Gwahardd llosgi deunyddiau penodol ... 63
Ein barn ni ... 64
**6. Rhan 5: Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn ... 65**
Ein barn ni ... 66
**7. Rhan 6 Trwyddedu Morol ... 67**
Ein barn ni ... 68
**Atodiad 1 ... 69**
**Atodiad 2 ... 72**

## Argymhellion y Pwyllgor

**Recommendation 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth a gafodd ei chyfnewid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch pob un o gydsyniadau Gweinidogion y Goron y gofynnwyd amdanyn nhw ar gyfer darpariaethau yn y Bil. Yn benodol, rydym yn gofyn i'r Gweinidog gadarnhau ar ba ddyddiad y gofynnodd Llywodraeth Cymru gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r darpariaethau yn adran 6 am y tro cyntaf. (Tudalen 17)

**Recommendation 2.** Os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cydsyniad erbyn diwedd Cyfnod 2 o'r ystyriaethau ar y Bil, yna rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 6 o'r Bil yn ystod Cyfnod 3 i gyfyngu'r ddyletswydd bioamrywiaeth i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. (Tudalen 17)

**Recommendation 3.** Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. (Tudalen 19)

**Recommendation 4.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn mewnosod diffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig o 'amrywiaeth biolegol' yn ddiffiniad o 'bioamrywiaeth'. (Tudalen 21)

**Recommendation 5.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn mewnosod diffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig o 'ecosystem', sef "*"Ecosystem" means a dynamic complex of plant, animal and micro-organism communities and their non-living environment interacting as a functional unit*". (Tudalen 21)

**Recommendation 6.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 3(2) o'r Bil er mwyn hepgor yr amcan fel y mae wedi'i ddrafftio a mewnosod Nod Cymru Gydnerth, fel y mae wedi'i nodi o dan adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (Tudalen 22)

**Recommendation 7.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r egwyddorion o dan adran 4 i gynnwys cyfeiriad at yr 'egwyddor ragofalus' ac at 'weithredu o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd'. (Tudalen 24)

**Recommendation 8.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd mis Mawrth 2016, gyhoeddi'r trefniadau ymgynghori a fydd yn gymwys wrth lunio'r NNRP a'r rhestrau bioamrywiaeth o dan adran 7. (Tudalen 26)

**Recommendation 9.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil sy'n diffinio'r trefniadau ymgynghori a fydd yn gymwys wrth lunio SoNaRRs a Datganiadau Ardal. (Tudalen 26)

**Recommendation 10.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau er mwyn hepgor pob enghraifft o'r ymadrodd ''cymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' a mewnosod 'cymryd pob cam rhesymol' yn ei le. (Tudalen 27)

**Recommendation 11.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n hepgor 'ceisio cyflawni' yn adran 5(2) ac sy'n mewnosod 'dilyn'. (Tudalen 29)

**Recommendation 12.** Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru lunio canllawiau statudol ynghylch diben cyffredinol CNC, er mwyn ymgynghori ar y rheiny cyn gynted ag y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol. (Tudalen 30)

**Recommendation 13.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 6(1) o'r Bil o hepgor 'ceisio' ac i fewnosod 'cymryd pob cam rhesymol'. (Tudalen 31)

**Recommendation 14.** Rydym yn argymell y dylai'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar y gofynion ynglŷn ag adroddiadau gynnwys gwybodaeth ychwanegol am y gweithgareddau y disgwylir i gyrff cyhoeddus ymgymryd â nhw er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. (Tudalen 31)

**Recommendation 15.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau:

- i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd o dan adran 6 gan gyfeirio at y rhestr sy'n cael ei sefydlu o dan adran 7;

- i’w gwneud yn ofynnol i’r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gynnwys asesiad o statws y cynefinoedd a’r rhywogaethau yn y rhestr yn adran 7; ac
- i’w gwneud yn ofynnol i’r NNRP a’r Datganiadau Ardal gynnwys y camau a gymerir i gynnal a gwella’r rhywogaethau yn y rhestr yn adran 7. (Tudalen 33)

**Recommendation 16.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi’r raddfa a’r amserlen ar gyfer ei hymgynghoriad ynghylch elfen bioamrywiaeth dangosyddion Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac amserlen ar gyfer cyflwyno’r dangosyddion hyn. I ganiatáu i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y Bil, rydym yn gofyn i’r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, sef 27 Tachwedd 2015 ar hyn o bryd. (Tudalen 34)

**Recommendation 17.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gynnwys asesiad o dueddiadau’r gorffennol a’r dyfodol (gan gynnwys y risgiau a’r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol) yn ychwanegol at asesiad o gyflwr presennol adnoddau naturiol yng Nghymru. Wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad hwn, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried manteision neu anfanteision pennu hyn ar wyneb y Bil. (Tudalen 35)

**Recommendation 18.** Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil i roi meini prawf manylach ynglŷn â chynnwys gorfodol NNRP. (Tudalen 36)

**Recommendation 19.** Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog egluro sut y bydd yr NNRP yn cydadweithio â Glastir a’r Cynllun Datblygu Gwledig. (Tudalen 36)

**Recommendation 20.** Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 9(2) o’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod unrhyw heriau i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ochr yn ochr â’r blaenoriaethau a’r cyfleoedd allweddol. (Tudalen 36)

**Recommendation 21.** Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 9(6)(a) er mwyn gosod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i adolygu’r NNRP o fewn deuddeng mis ar ôl etholiad cyffredinol i’r Cynulliad. (Tudalen 37)

**Recommendation 22.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i CNC lunio Datganiadau Ardal sydd gyda'i gilydd yn ymdrin â holl ardaloedd tir ac arfordir Cymru. (Tudalen 39)

**Recommendation 23.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r argymhelliad hwn yn y Cyfarfod Llawn, nodi bwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â Datganiadau Ardal ac a ydyn nhw am gynnwys camau gweithredu yn ogystal â chronfa dystiolaeth. (Tudalen 39)

**Recommendation 24.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i gymryd pob cam rhesymol i roi Datganiadau Ardal ar waith. (Tudalen 40)

**Recommendation 25.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau diwygiedig ar gostau rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith a'r adnoddau a fydd ar gael i CNC i gyflawni'r swyddogaethau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn. (Tudalen 42)

**Recommendation 26.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod dyletswyddau ychwanegol ar CNC:

- i baratoi a chyhoeddi asesiad risg cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru; ac
- i fonitro effeithiau unrhyw gynlluniau a gaiff eu cynnal, cyflwyno adroddiadau arnyn nhw a'u cyhoeddi. (Tudalen 44)

**Recommendation 27.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori adolygu pa mor ddigonol yw targed 2050 a chyflwyno adroddiad ar hynny bob pum mlynedd. (Tudalen 46)

**Recommendation 28.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru amrywio targed 2050 drwy reoliadau (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol). (Tudalen 46)

**Recommendation 29.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 32(3) o'r Bil i fewnosod yr egwyddor o gadw cynhesu byd-eang o fewn 2 radd ganradd yn y meini prawf y mae'n

rhaid i'r Gweinidogion eu hystyried wrth osod targedau a chyllidebau carbon. (Tudalen 46)

**Recommendation 30.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi rhychwant ac amserlen ei hymgynghoriad ar dargedau interim ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r targedau hynny. Er mwyn caniatáu i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y Bil, rydym yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, sef 27 Tachwedd 2015 ar hyn o bryd. (Tudalen 47)

**Recommendation 31.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiadau ar sail defnyddio yn ogystal ag ar sail cynhyrchu. (Tudalen 48)

**Recommendation 32.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r gyllideb garbon gyntaf gael ei gosod yn gynt na diwedd 2018 ac i'r ail gyllideb garbon a'r drydedd gael eu cyhoeddi cyn diwedd 2018. (Tudalen 50)

**Recommendation 33.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i newid y pŵer yn adran 33(2) yn ddyletswydd. (Tudalen 51)

**Recommendation 34.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ymestyn y paramedrau yn adran 32(3) i'r corff cynghori ar y newid yn yr hinsawdd. (Tudalen 52)

**Recommendation 35.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad blynyddol ar y cynnydd tuag at darged 2050. (Tudalen 53)

**Recommendation 36.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi mwy o eglurder i'r Cynulliad a'r rhanddeiliaid ar sut y caiff y gofynion ynglŷn ag adroddiadau yn y Bil hwn ac yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol eu cydlynu. (Tudalen 53)

**Recommendation 37.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud â Chanolfan Tyndall gyda golwg ar edrych ymhellach ar gynnwys allyriadau hedfan a morgludiant wrth osod cyllidebau a thargedau carbon gan adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ei hystyriaethau ar argymhellion Canolfan Tyndall. (Tudalen 54)

**Recommendation 38.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog nodi sut y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r corff cynghori ar newid yn yr hinsawdd yn cydadweithio â'i gilydd. (Tudalen 55)

**Recommendation 39.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog nodi sut y mae'n gweld dyfodol Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. (Tudalen 55)

**Recommendation 40.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu rhestr o'r mecanweithiau y mae'n cyfeirio atyn nhw ochr yn ochr â disgrifiad o'r agweddau ar addasu y maen nhw'n ymdrin â nhw er mwyn inni asesu pa mor llydan a dwfn yw'r ymdriniaeth. (Tudalen 56)

**Recommendation 41.** Er gwaethaf ein sylwadau uchod, ar gyfer unrhyw estyniad ar y cynllun, e.e. i fagiau am oes, rydym yn argymell y dylai'r enillion hyn gael eu cyfeirio at elusennau sydd â chylch gorchwyl amgylcheddol. Ymhellach, os oes modd, dim ond at elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru y dylen nhw gael eu cyfeirio. (Tudalen 58)

**Recommendation 42.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gymorth y bydd yn ei roi i fusnesau bach i'w helpu i fodloni unrhyw ofynion newydd ynglŷn â gwahanu gwastraff. (Tudalen 60)

**Recommendation 43.** Rydym yn argymell y dylai unrhyw reoliadau a fydd yn cael eu cyflwyno o dan adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (a fewnosodir gan adran 66 o'r Bil) gynnwys y prawf TEEP. (Tudalen 60)

**Recommendation 44.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ymwneud â'r cynrychiolwyr busnes a diwydiant sydd wedi cyflwyno sylwadau inni ynghylch y gwaharddiad ac y dylai ddiwygio'r RIA i gymryd i ystyriaeth y technolegau diweddaraf sy'n cael eu defnyddio – yn enwedig felly y rhai sy'n bodloni safonau'r Cyngor Ymchwil Dŵr. (Tudalen 63)

**Recommendation 45.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried yr achos o blaid esemptio offer sy'n bodloni safonau'r Cyngor Ymchwil Dŵr. (Tudalen 63)

**Recommendation 46.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried a fydd yr esemptiad yn adran 67 ar gyfer gwastraff wedi'i

gymysgu â dŵr neu unrhyw hylif arall sy'n cael ei ddefnyddio at lanhau yn caniatáu i olew, braster a/neu saim gael eu gwaredu mewn carthffosydd dim ond am fod y sylweddau hynny wedi'u troi'n emwlsiwn yn ystod proses lanhau. Os oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymell y dylai ailedrych ar sut mae'r esemptiad wedi'i ddrafftio. (Tudalen 63)

**Recommendation 47.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynigion ynghylch gorfodi'r gwaharddiad yn fanylach, gan gynnwys y corff a fydd yn gyfrifol am ei orfodi, ac y dylai hyn gynnwys amcangyfrif o gost gorfodi gwaharddiad. (Tudalen 63)

**Recommendation 48.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro pwy fydd yn gyfrifol am wahanu'r gwastraff, hynny yw ai cludwyr y gwastraff ynteu gweithredwyr y llosgydd. (Tudalen 64)

**Recommendation 49.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i'r diwydiant ar sut y caiff y darpariaethau yn y Bil eu cymhwyso a'u dehongli. (Tudalen 66)

**Recommendation 50.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried a ddylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn peri bod methu cydymffurfio â hysbysiad diogelu safle yn drosedd ac y dylai gyhoeddi ei safbwynt ynglŷn â hyn. (Tudalen 66)

**Recommendation 51.** Wrth gynnal yr ymgynghoriad hwn, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gynnwys cwestiynau ymgynghori ynghylch:

- Dangosyddion perfformiad (hynny yw ar gyfer perfformiad yr awdurdod trwyddedu) gan gynnwys amserlenni ar gyfer prosesu ceisiadau;
- Sefydlu gofynion ynglŷn â chyhoeddi data;
- Sicrhau mecanwaith tryloyw ar gyfer gosod ffioedd, a
- Chyflwyno cyfradd fesul awr ar gyfer ffioedd. (Tudalen 68)

## Rhagymadrodd

1. Ar 11 Mai 2015, cyflwynodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ("y Gweinidog") Fil yr Amgylchedd (Cymru) ("y Bil") a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, a gwnaeth ddatganiad ynglŷn â'r Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Mai 2015.

2. Yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2015, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y byddai'n cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd er mwyn i'r egwyddorion cyffredinol gael eu hystyried (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9.

### Cylch gorchwyl

3. Cytunwyd ar y canlynol:

Ystyried egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru) gan gynnwys:

A. Yr angen am ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn –

- Cynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol;
- Rhoi pwrpas cyffredinol i Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gysylltiedig â'r 'egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' a ddiffinnir yn y Bil;
- Gwella'r pwerau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud cytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol;
- Rhoi gofyniad ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth;
- Creu fframwaith statudol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd, gan gynnwys targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Diwygio'r gyfraith ar godi tâl am fagiau siopa;
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ailgylchu gwastraff (yn cynnwys casglu gwastraff ar wahân); trin gwastraff bwyd ac adfer ynni mewn busnes;

- Gwneud darpariaeth ynghylch sawl gorchymyn mewn perthynas â physgodfeydd cregyn;
- Ffioedd ar gyfer trwyddedau morol;
- Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol; a
- Newidiadau i'r gyfraith ar ddraenio tir ac is-ddeddfau a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

B. Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried.

C. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;

D. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, (sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddiannau o roi'r Bil ar waith)).

E. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth).

**Ymagwedd y Pwyllgor**

4. Cyhoeddwyd ymgynghoriad a gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Ceir rhestr o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

5. Cymerwyd tystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae’r rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ar gael yn Atodiad 2.

6. Mae’r adroddiad a ganlyn yn cyflwyno’r casgliadau y daethom iddyn nhw a’n hargymhellion, ar sail y dystiolaeth a gawsom.

7. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith.

# 1. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

## Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud y Bil hwn

8. Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad ar 11 Mai 2015, gan ddweud y byddai'r mwyafrif o'r darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd (Cymru), a gyflwynwyd ar 11 Mai 2015, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei barn hi.

9. Er hynny, dywedodd hefyd na fyddai adrannau 6, 11(2) ac 21 o fewn y cymhwysedd hwnnw, a hynny am fod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn dod â'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad ac nad oedd y cydsyniad angenrheidiol hwnnw wedi'i sicrhau ar y pryd.

10. Yn ein cyfarfod ar 16 Medi, cadarnhaodd y Gweinidog fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod rhoi cydsyniad ynglŷn ag adran 6 o'r Bil, sef yr adran sy'n ceisio gosod dyletswydd bioamrywiaeth ar awdurdodau cyhoeddus Cymru.[1]

11. Cadarnhaodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ei lythyr at Brif Weinidog Cymru ar 11 Medi 2015:

> "I am content to provide consent for sections 11(3)(b), 21 and 22(2). I am however, withholding consent for section 6 at this time."[2]

### *Ein barn ni*

12. Er mwyn dod â'r rhan berthnasol, neu'r rhannau perthnasol, o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, bydd rhaid i'r Gweinidog ddarbwyllo'r Ysgrifennydd Gwladol i newid ei feddwl. Yn niffyg hynny, bydd angen i'r Bil gael ei ddiwygio naill ai i hepgor adran 6 neu i gyfyngu darpariaethau'r adran honno fel nad yw'r ddyletswydd yn gymwys i swyddogaethau un o Weinidogion y Goron.

---

[1] Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.11
DS: oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at "Cofnod y Trafodion" yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

[2] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru at Brif Weinidog Cymru, Bil yr Amgylchedd (Cymru), 11 Medi 2015

13. Mae'n anffodus na chafodd y mater hwn ei ddatrys cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. I helpu'r Cynulliad i ddeall y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau'r cydsyniadau hyn, dylai'r Gweinidog gyhoeddi llinell amser a'r cyfan o'r ohebiaeth a gafodd ei chyfnewid â'r Ysgrifennydd Gwladol.

14. Mae'r Gweinidog wedi rhoi manylion inni ynghylch canran y tir yng Nghymru y bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn effeithio arno. Ar sail asesiad cychwynnol, mae'n dweud mai rhyw 5 y cant o holl dir Cymru yw'r amcangyfrif o gyfanswm tir y Goron yng Nghymru.[3]

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth a gafodd ei chyfnewid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch pob un o gydsyniadau Gweinidogion y Goron y gofynnwyd amdanyn nhw ar gyfer darpariaethau yn y Bil. Yn benodol, rydym yn gofyn i'r Gweinidog gadarnhau ar ba ddyddiad y gofynnodd Llywodraeth Cymru gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r darpariaethau yn adran 6 am y tro cyntaf.**

15. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadw at ei safbwynt, yna bydd angen i'r Bil gael ei ddiwygio. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n well gennyn ni pe bai'r Bil yn cael ei ddiwygio i gyfyngu adran 6 i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Er ei bod yn siom na fyddai 5-6% o'r tir yn dod o dan y ddyletswydd o dan yr amgylchiadau hyn, fe fyddai gweddill yr ystâd gyhoeddus yng Nghymru yn dod odani. Mae'n bwysig felly fod adran 6 ddiwygiedig yn aros yn y Bil.

**Os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cydsyniad erbyn diwedd Cyfnod 2 o'r ystyriaethau ar y Bil, yna rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 6 o'r Bil yn ystod Cyfnod 3 i gyfyngu'r ddyletswydd bioamrywiaeth i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.**

### Egwyddorion cyffredinol

16. Y nodau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u datgan ar gyfer y Bil yw:

[3] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Bil yr Amgylchedd (Cymru), 29 Medi 2015

- Cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig.

- Gwneud darpariaeth i helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol, drwy gyfrwng Adroddiad ar gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a Datganiadau Ardal.

- Rhoi diben cyffredinol i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a fyd dyn gyson ag egwyddorion statudol rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a ddiffinnir yn y Bil, ynghyd â phwerau estynedig i ymgymryd â chytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol.

- Gosod gofyniad diwygiedig ar yr awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

- Sefydlu fframwaith statudol clir ar gyfer gweithredu ar newid yn yr hinsawdd.

- Gwneud darpariaethau ar gyfer cynllun codi tâl am bob math o fagiau siopa.

- Gwella ymhellach ar reolaeth adnoddau drwy roi pwerau i Weinidogion Cymru i gymryd camai i sicrhau lefelau uwch o ailgylchu gwastraff, trin gwastraff bwyd ac adennill ynni mewn busnes.

- Egluro'r gyfraith ynglŷn â nifer o gyfundrefnau presennol sy'n rheoleiddio'r amgylchedd gan gynnwys trwyddedau morol, rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn, draenio tir a rheoli perygl llifogydd.

- Cefnogi gwaith a mentrau ehangach Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau bod Cymru'n datblygu'n gynaliadwy ac yn elwa ar economi ffyniannus ochr yn ochr ag amgylchedd iach a chryf a chymunedau llewyrchus, cydlynus

17. Bydd gweddill yr adroddiad hwn yn cynnig sylwadau manylach ar y nodau hyn, a'n barn ni ynghylch a fydd y ddeddfwriaeth fel y mae wedi'i drafftio yn cyflawni'r nodau hynny.

### *Ein barn ni*

18. Mae'r ymagwedd y mae'r Llywodraeth wedi'i harddel at y ddeddfwriaeth hon, mae ehangder ac amrywiaeth y materion yr ymdrinnir â nhw yn y Bil wedi peri rhywfaint o anhawster i ni ac i'n rhanddeiliaid.

19. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru feddwl yn ofalus cyn arddel yr ymagwedd hon yn y dyfodol; o dan yr amgylchiadau hyn mae yna risgiau i'r modd priodol o ddeddfu.

20. Serch y pryder cyffredinol hwn ynglŷn â'r ymagwedd sydd wedi'i harddel at y ddeddfwriaeth hon, mae llawer o randdeiliaid wedi croesawu'r ffaith bod y Bil wedi'i gyflwyno ac rydyn ninnau'n gefnogol yn fras i'r amcanion polisi y tu ôl i'r ddeddfwriaeth. Er ein bod o'r farn bod angen gwella'r Bil mewn nifer o feysydd, rydym yn fodlon ar yr egwyddorion cyffredinol.

**Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn.**

## 2. Rhan 1: Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

### Diffinio 'bioamrywiaeth' ac 'ecosystem'

21. Yr y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar, mae nifer fawr o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol,[4] parciau cenedlaethol ac amryw o sefydliadau amgylcheddol,[5] yn galw am i'r Bil gynnwys diffiniadau o ecosystemau a bioamrywiaeth sy'n cyfateb i'r diffiniadau a geir o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol ('Confensiwn y Cenhedloedd Unedig').[6]

22. Dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig (UKELA) wrthon ni yn ei thystiolaeth lafar a'i thystiolaeth ysgrifenedig nad oedd o'r farn y byddai ystyriaeth o'r ddau fater hyn o reidrwydd yn llifo o'r amcanion a'r diffiniadau yn y Bil. Dywedodd fod absenoldeb diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig yn gwanhau'r Bil.[7]

23. Yn ein cyfarfod ar 16 Medi 2015, cadarnhaodd y Gweinidog mai'r Bil yw ei brif gyfrwng ar gyfer cyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Er hynny, nid oedd wedi cael ei ddarbwyllo gan awgrym y rhanddeiliaid y dylai'r termau 'bioamrywiaeth' ac 'ecosystem' gael eu diffinio ar wyneb y Bil, er iddo ddweud bod ei ddealltwriaeth yntau o'r termau hynny yn adlewyrchu'r diffiniadau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.[8]

Dywedodd y Gweinidog fod i'r term 'bioamrywiaeth' yr ystyr sydd wedi'i phriodoli iddo o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.[9] Mae Erthygl 2 o o'r Confensiwn yn rhoi'r diffiniad a ganlyn:

> "Biological diversity" means the variability among living organisms from all sources including, inter alia, terrestrial, marine and other aquatic ecosystems and the ecological

---

[4] Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ymateb ymgynghori EB 22, *Bil yr Amgylchedd (Cymru);* Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Ebrill 2015.
DS: dim ond y cyfeirnod ac enw'r sefydliad neu'r unigolyn a gyflwynodd yr ymateb a welir o hyn ymlaen wrth gyfeirio at ymatebion ymgynghori.
[5] EB 21 Y Parciau Cenedlaethol; EB 35 Cyswllt Amgylchedd Cymru ac EB 28 Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru.
[6] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol
[7] EB 19 Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig; Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.595
[8] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.38
[9] Ibid c.40

complexes of which they are part; this includes diversity within species, between species and of ecosystems.

24. Roddodd y Gweinidog mo'r lefel eglurder hon ynglŷn â defnyddio'r term 'ecosystem'. Er bod swyddogion y Gweinidog wedi ceisio rhoi eglurhad, wnaeth y Gweinidog ddim cadarnhau mai'r esboniad a gynigiwyd ganddyn nhw, neu a ddarparwyd o dan y Confensiwn, oedd ei ddiffiniad arfaethedig yntau ar gyfer 'ecosystem' yn y Bil.

***Ein barn ni***

25. Mae'r ddau derm yn gymhleth ac yn agored i gael eu dehongli'n eang. Bydd gan gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid yng Nghymru ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod y Bil hwn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac mae'r ddau wedi gofyn am sicrwydd ac eglurder ynghylch ystyr y termau hyn a'r hyn y gofynnir iddyn nhw ei gyflawni. O gofio'u cymhlethdod, rydym yn credu y byddai'n fuddiol eu diffinio ar wyneb y Bil.

26. Mae'r Gweinidog wedi rhoi eglurder o ran ei ddiffiniad arfaethedig ar gyfer 'bioamrywiaeth' ac rydym yn fodlon y byddai hyn yn helpu i ddehongli'r ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol. Serch hynny, byddai gosod y diffiniad ar wyneb y Bil yn osgoi'r angen i gyfeirio'n ôl at drafodion y Cynulliad i sicrhau'r dehongliad hwn. Gan hynny, byddai'n well gennym weld y Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys y diffiniad.

27. Nid yw'r Gweinidog wedi rhoi'r un lefel eglurder o ran diffinio 'ecosystem'. Cyn inni fod yn fodlon bod 'ecosystem' wedi'i esbonio'n foddhaol o safbwynt dehongli'r ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol, byddai arnon ni angen datganid clir gan y Gweinidog yn ystod trafodion y Cynulliad. Unwaith eto, byddai'n well gennym weld y Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys diffiniad o 'ecosystem'. Mae erthygl 2 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys diffiniad o'r fath a allai gael ei ddefnyddio 'r perwyl hwn.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn mewnosod diffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig o 'amrywiaeth biolegol' yn ddiffiniad o 'bioamrywiaeth'.**

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn mewnosod diffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig o 'ecosystem', sef ""*Ecosystem" means a dynamic complex of plant,***

***animal and micro-organism communities and their non-living environment interacting as a functional unit*”.**

**Diwygio’r amcan ynglŷn â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol**

28. Mae nifer o awgrymiadau wedi’u gwneud o ran diwygio’r amcan yn adran 3(2). Mae’r mwyafrif yn galw am grybwyll y termau ‘adfer’ a ‘bioamrywiaeth’ mewn rhyw ffordd. Mae rhai cyfranddeiliaid yn dadlau y dylai’r amcan yn adran 3(2) adlewyrchu nod Cymru Gydnerth a gynhwyswyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol).[10]

***Ein barn ni***

29. Bydd gwella’r cysylltiad rhwng y Bil hwn a Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol yn gadael sefyllfa gyfreithiol fwy cydlynol i’r sawl a fydd yn dehongli’r deddfau hyn ac yn eu rhoi ar waith. O gofio lefel y gefnogaeth ymysg y rhanddeiliaid i osod Nod Cymru Gydnerth yn lle’r amcan o dan adran 3(2), rydym yn casglu y dylai’r ddarpariaeth hon gael ei diwygio i beri mai Nod Cymru Gydnerth fydd yr amcan.

**Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 3(2) o’r Bil er mwyn hepgor yr amcan fel y mae wedi’i ddrafftio a mewnosod Nod Cymru Gydnerth, fel y mae wedi’i nodi o dan adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.**

**Tirluniau**

30. Mae rhai rhanddeiliaid wedi galw hefyd am gael cyfeiriad penodol at y term ‘tirlun’ naill ai yn yr amcan yn adran 3 neu yn yr egwyddorion yn adran 4.[11] Yn ei dystiolaeth yntau inni, amlinellodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ei gred nad oedd absenoldeb gair o’r amcan yn golygu nad oedd yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

31. Yn ystod ein cyfarfod ar 16 Medi, ailadroddodd y Gweinidog ei farn nad oedd angen cynnwys y term ‘tirlun’ yn adran 4. Dywedodd fod y Bil yn ymgorffori egwyddor rheoli tirluniau, ond rhoddodd ddau reswm dros wrthod cynnwys tirlun fel ystyriaeth benodol:

---

[10] EB 36 Cyswllt Amgylchedd Cymru; EB 11 RSPB Cymru.
[11] EB 02 Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig; EB 07 Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod; EB13 Cynghrair Parciau Cenedlaethol Cymru; EB 34 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

- Er nad yw tirlun yn cael ei grybwyll yn benodol, fe allai gael ei ystyried fel graddfa briodol ar gyfer gweithredu o dan adran 4(b); ac

- Fe allai cynnwys 'tirlun' greu problem - 'peri canlyniadau anuniongyrchol' – o ran meysydd polisi eraill gan gynnwys cynllunio, hynny yw gallai gael ei ddefnyddio i atal datblygu.[12]

### *Ein barn ni*

32. Rydym yn credu bod Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, a rhanddeiliaid eraill, wedi darparu tystiolaeth rymus o blaid cynnwys y term 'tirlun' naill ai yn yr amcan yn adran 3 neu yn yr egwyddorion o dan adran 4.[13] Mae'r Gweinidog wedi'n hysbysu bod darpariaethau'r Bil yn ddigon eang i ganiatáu iddo gael ei gymhwyso ar raddfa'r tirlun.

### Egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

33. Galwodd y rhanddeiliaid am gynnwys nifer o egwyddorion ychwanegol yn adran 4 o'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr egwyddor ragofalus fel bod rhagofalon yn cael eu cymryd os nad oes tystiolaeth ynghylch effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd;

- Egwyddorion ynglŷn â threfnu blaenoriaeth unrhyw amcanion sy'n gwrthdaro â'i gilydd;

- Cyfeiriad at gymryd camau dros y raddfa amser briodol yn ogystal ag ar y raddfa ofodol briodol (sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y Bil);

- Cyfeiriad at weithredu o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd;

- Cyfeiriad at gadwraeth swyddogaethau ecosystemau;

- Cyfeiriad penodol at gymryd cydnerthedd cynefinoedd a rhywogaethau i ystyriaeth; a hefyd

---

[12]Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.54
[13] EB 02 Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig.

- Yr angen i gynnwys cyfeiriad cryfach at yr egwyddor o gyfranogiad cyhoeddus mewn penderfyniadau amgylcheddol sydd wedi'i chynnwys yng Nghonfensiwn Aarhus.[14]

34. Yn ein cyfarfod ar 16 Medi 2015, dywedodd y Gweinidog fod yr ymagwedd sydd wedi'i nodi yn y Bil yn galluogi'r dull rhagofalus i gael ei fabwysiadu, er nad oes cyfeiriad uniongyrchol yn y Bil at yr egwyddor ragofalus.[15]

***Ein barn ni***

35. Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i gynigion y rhanddeiliaid, rydym o'r farn y byddai'n fuddiol cynnwys yr egwyddor ragofalus a chyfeiriad at weithredu o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd o dan adran 4. Dyma egwyddorion sydd wedi'u deall yn dda ac sydd wedi ennill eu plwyf yn rhyngwladol. Maen nhw'n cynnig eglurder a chryfder ychwanegol i'r set o egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd ac rydym yn credu eu bod yn adlewyrchu egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

36. Wrth argymell cynnwys yr egwyddor ragofalus, rydym am bwysleisio na fyddem yn dymuno ei gweld yn cael ei dehongli fel rhwystr i atal arloesi priodol neu ddatblygu cynaliadwy.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r egwyddorion o dan adran 4 i gynnwys cyfeiriad at yr 'egwyddor ragofalus' ac at 'weithredu o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd'.**

**Darpariaethau ymgynghori**

37. Nid yw Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau penodol ynghylch ymgynghori mewn perthynas â llawer o'i agweddau allweddol, megis llunio'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a Datganiadau Ardal. Yn hytrach, mae'r Bil yn dibynnu ar gyfeiriad yn yr egwyddorion yn adran 4 at yr angen i gymryd yr holl dystiolaeth i ystyriaeth ac i ymgysylltu a chydweithio. Mae nifer arwyddocaol o randdeiliaid wedi amlinellu inni eu cred nad yw'r cyfeiriad hwn yn ddigonol ac y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau ymgynghori penodol mewn perthynas â'r cyfan neu rai o'r agweddau a ganlyn:

[14] Mae'r sefydliadau sy'n galw am gynnwys y cyfan neu rai o'r egwyddorion hyn yn cynnwys: EB 02 CPRW; EB 07 BCT; EB 19 UKELA; EB 21 Parciau Cenedlaethol Cymru; EB 22 CLlC; EB 28 WTW; EB 35 WEL; ac EB 53 Llinos Price.
[15] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.52

- Paratoi a chyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (adran 8);
- Paratoi a chyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol gan Weinidogion Cymru (adran 9);
- Paratoi a chyhoeddi Datganiad Ardal gan Gyfoeth Naturiol Cymru (adran 10); a
- Pharatoi a chyhoeddi rhestr o organeddau byw a mathau o gynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf o ran Cymru gan Weinidogion Cymru (adran 7).[16]

38. Mae rhai hefyd yn cyfeirio at yr angen i gydymffurfio â Chonfensiwn Aarhus ynghylch hawl y cyhoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau amgylcheddol.[17]

39. Mae'r Gweinidog wedi bod yn gyson o ran gwrthod cynnwys darpariaethau penodol ynghylch ymgynghori ar wyneb y Bil.[18] Safbwynt y Gweinidog, yn ôl a ddeallwn ni, yw bod dyletswydd CNC a Gweinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion yn adran 4 wrth lunio'r SoNaRR, yr NNRP, y Datganiadau Ardal a'r rhestrau bioamrywiaeth o dan adran 7 yn ddigon, gan fod yr egwyddorion yn cynnwys 'hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt'. Cynigiodd y Gweinidog sicrwydd inni fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid ynghylch paratoi'r cynlluniau a'r polisïau hyn.[19]

### *Ein barn ni*

40. Rydym yn croesawu ac yn derbyn sicrwydd y Gweinidog y byddai'n ofynnol, yn unol ag egwyddorion adran 4 o'r Bil, i Lywodraeth Cymru ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid ynghylch paratoi NNRP a rhestrau bioamrywiaeth adran 7. Rydym yn derbyn felly nad oes angen cynnwys darpariaeth benodol ynghylch ymgynghori ar wyneb y Bil ynglŷn â'r NNRP a'r rhestrau bioamrywiaeth yn adran 7.

---

[16] Mae'r sefydliadau sy'n galw am gynnwys y cyfan neu rai o'r darpariaethau hyn yn cynnwys: EB 07 BCT; EB 34 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; EB 35 WEL; EB 36 Cyngor Sir Penfro; EB 11 RSPB Cymru; EB 42 CONFOR; ac EB 51 NFU Cymru.
[17] EB 35 WEL ac EB 28 WTW.
[18] Cofnod y Trafodion 16 Medi c.56 and 58
[19] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.58

41. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r rhanddeiliaid, dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r trefniadau ymgynghori a fydd yn gymwys wrth lunio'r NNRP a'r rhestrau bioamrywiaeth yn adran 7.

42. Er ein bod yn derbyn bod y Gweinidog yn credu y byddai CNC yn ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid, nid yw'r Gweinidog yn gallu cynnig sicrwydd dar ran sefydliad arall. Yn ychwanegol, o gofio mor holl-bwysig yw'r SoNaRR a'r Datganiadau Ardal ar gyfer llwyddiant wrth roi'r ddeddfwriaeth ar waith, rydym yn argymell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i CC ymgynghori ynglŷn â llunio'r rhain.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd mis Mawrth 2016, gyhoeddi'r trefniadau ymgynghori a fydd yn gymwys wrth lunio'r NNRP a'r rhestrau bioamrywiaeth o dan adran 7.**

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil sy'n diffinio'r trefniadau ymgynghori a fydd yn gymwys wrth lunio SoNaRRs a Datganiadau Ardal.**

### Iaith amodol

43. Mae WWF Cymru ac UKELA yn tynnu sylw'n benodol at ddefnyddio iaith amodol mewn nifer o'r dyletswyddau yn Rhan 1 a ddylai gael ei chryfhau yn eu barn nhw.[20] Yn eu tystiolaeth lafar nhw i'r Pwyllgor, nododd UKELA eu barn bod y dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn Rhan 1 o'r Bil yn gymharol wan a hynny mewn termau cenedlaethol a rhyngwladol.[21] Mae nifer o randdeiliaid eraill yn cyfeirio at ddarpariaethau penodol lle yr hoffen nhw weld yr iaith yn cael ei chryfhau. Dyma'r dyletswyddau lle argymhellwyd newidiadau:

- dyletswydd adran 7(3) ar Weinidogion Cymru i gymryd 'y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' er mwyn cynnal a gwella organeddau byw a chynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf i Gymru ac 'annog eraill' i gymryd camau o'r fath;

- dyletswydd adran 9(4) ar Weinidogion Cymru i gymryd 'y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol'

[20] EB 19 UKELA; EB 28 WWF Cymru.
[21] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2016 c.617

er mwyn rhoi'r NNRP ar waith ac 'annog eraill' i gymryd camau o'r fath;

- dyletswydd adran 10(4) ar CNC i gymryd 'y camau hynny y mae'n ymddangos i CNC eu bod yn rhesymol ymarferol' er mwyn gweithredu datganiad ardal; a

- phŵer adran 12(1) i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo corff cyhoeddus i gymryd 'y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' i roi datganiadau ardal ar waith.

- Un awgrym a gynigiwyd gan y rhanddeiliaid yw y dylai'r term 'cymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' gael ei ddisodli gan yr iaith a ddefnyddiwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, 'cymryd pob cam rhesymol'.[22] Galwodd y rhanddeiliaid hefyd am i'r dyletswyddau yn adrannau 5 a 6 gael eu cryfhau.

44. Ar 16 Medi, nododd y Gweinidog ei fod yn fodlon ystyried ein barn ni ar sut mae'r Bil wedi'i ddrafftio.[23]

### *Ein barn ni*

45. Fel y dywedwyd ym mharagraff 29 uchod, byddai'n ddymunol gwella'r synergedd rhwng y Bil hwn a deddfwriaeth berthnasol arall o ran sicrhau bod y maes cyfreithiol hwn mor eglur ag y bo modd. Rydym wedi'n darbwyllo y byddai diwygio'r Bil i ddefnyddio'r un ymadroddion â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn creu dwy effaith, sef gwella cryfder y darpariaethau yn y Bil ac ychwanegu cysondeb at y gwaith drafftio.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau er mwyn hepgor pob enghraifft o'r ymadrodd ''cymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' a mewnosod 'cymryd pob cam rhesymol' yn ei le.**

### Diben CNC

46. Mae nifer o'r rhanddeiliaid wedi amlinellu eu cred y dylai'r ddyletswydd ar CNC i 'geisio cyflawni rheoli cynaliadwy' ar adnoddau

---

[22] EB 19 UKELA
[23] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2016 c.91

naturiol gael ei gryfhau.[24] Mae rhai yn awgrymu dileu'r gair 'ceisio' ac mae eraill yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i CNC 'ddilyn' rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae rhai wedi tynnu sylw at ddileu'r gair 'amgylchedd' o ddiben gwreiddiol CNC, gan alw am ei ailosod yn y diben hwnnw.

47. Cafwyd awgrym gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru y dylai diben CNC adlewyrchu diben Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) fel bod yr amgylchedd yn cael y flaenoriaeth mewn achosion lle ceir gwrthdaro rhwng eu dibenion amgylcheddol a'u dibenion eraill.[25] Dyletswydd gyfreithiol SEPA yw: diogelu a gwella'r amgylchedd; cyfrannu at wella iechyd a llesiant pobl yn yr Alban; a sicrhau twf economaidd cynaliadwy ac eithrio lle byddai hynny'n anghyson â'i phrif ddiben o ddiogelu'r amgylchedd.

48. Mae'r rhanddeiliaid yn tanlinellu hefyd mai dim ond drwy gyfeirio at yr amcan yn adran 3 a'r egwyddorion yn adran 4, y mae CNC yn gorfod eu hybu a gweithredu yn unol â nhw, y gellir dehongli diben CNC. Dywedodd CNC wrthon ni y bydden nhw'n fodlon ar eu diben newydd, fel y mae wedi'i ddrafftio yn y Bil.[26]

### *Ein barn ni*

49. Yn ein gwaith ehangach, mae'n amlwg nad yw diben presennol CNC wedi cael ei ddeall yn dda gan ei staff a'i randdeiliaid. Mae'r Bil hwn yn gyfle pwysig i egluro diben CNC ac, o'i wneud yn iawn, bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gynyddu hyder y rhanddeiliaid yn y corff.

50. Cynigiodd y Gweinidog ei ddiffiniad yntau o ddiben CNC fel a ganlyn:

> "[…] the agency that manages our natural resources […]"[27]

51. Cyn hyn, mae'r Gweinidog wedi esbonio ei bod yn ofynnol i CNC, ar y cyd â phob corff cyhoeddus, gyflawni holl nodau Deddf

[24] EB 28 WTW ac EB 35 WEL
[25] Cofnod y Trafodion 2 Gorffennaf 2015 c.203
[26] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.559
[27] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.109

Cenedlaethau'r Dyfodol; na ddylai blaenoriaeth gael ei rhoi i unrhyw un nod wrth i swyddogaethau corff cyhoeddus gael eu cyflawni.[28]

52. Nid yw'r ddadl hon yn ein hargyhoeddi. Er ein bod yn derbyn bod rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i bob un o'r nodau, nid ydym yn gweld rhwystr sy'n atal corff cyhoeddus rhag cael un diben cyffredinol; nod y mae ganddo'r dasg benodol o'i gyrraedd. Un enghraifft a roddwyd inni oedd y gwasanaeth iechyd; sef, er ei fod yn ofynnol iddo gyflawni pob agwedd ar nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae yna ddisgwyl – yn gywir ddigon – iddo roi'r flaenoriaeth i'w swyddogaeth graidd o ddarparu gwasanaethau iechyd.

53. Ar ben hynny, effaith gyfun is-adran 3(1) yw rhoi blaenoriaeth i'r amcan a bennwyd yn is-adran 3(2). Yn ein barn ni, mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn darparu ar gyfer hierarchaeth.

54. Os caiff adran 3(2) ei diwygio er mwyn cyfeirio'n unswydd at nod llesiant 'Cymru gydnerth' (yn unol â'r argymhelliad uchod), yna rydym yn credu y byddai'r Bil yn pennu mai dyna brif ddiben CNC. O dan yr amgylchiadau hyn, ni allai CNC gymryd camau i gyfrannu at y nodau llesiant eraill pe bai hynny'n creu effaith andwyol ar ei waith wrth ymgyrraedd at nod llesiant 'Cymru gydnerth'.

55. Dylai geiriad y diben cyffredinol gael ei gryfhau er mwyn rhoi mwy o sicrwydd y caiff y prif amcan ei gyflawni.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil sy'n hepgor 'ceisio cyflawni' yn adran 5(2) ac sy'n mewnosod 'dilyn'.**

56. Wrth ymchwilio i'r mater hwn, mae gwerth canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r diben cyffredinol wedi dod yn amlwg. Dyma rywbeth yr ydyn ni wedi galw amdano o'r blaen ac yr addawodd rhagflaenydd y Gweinidog ei ddarparu. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer eisoes i gyhoeddi canllawiau o'r fath o dan adran 5 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, rydyn ni o'r farn y dylai canllawiau gael eu cyhoeddi ynghylch diben newydd CNC.

---

[28] Ibid c.116; Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.18, 20 and 22

**Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru lunio canllawiau statudol ynghylch diben cyffredinol CNC, er mwyn ymgynghori ar y rheiny cyn gynted ag y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.**

### Dyletswydd Bioamrywiaeth

57. Mae'r adran hon yn ein hadroddiad yn hoelio sylw ar y Bil fel y cafodd ei gyflwyno ac nid yw'n mynd i'r afael â chwestiwn cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol gan ein bod ni wedi cynnig casgliadau ynglŷn a hynny mewn adran flaenorol.

58. Clywsom gefnogaeth i gynnwys dyletswydd newydd ynglŷn â bioamrywiaeth yn y Bil. Er hynny, mae nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid wedi dadlau hefyd y dylai'r ddyletswydd yn adran 6 gael ei chryfhau. Fel sy'n wir mewn adrannau eraill yn Rhan 1 mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau o blaid dileu'r gair 'ceisio' o'r ddyletswydd yn adran 6(1).[29] Awgrym arall yw cryfhau'r ddyletswydd drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus 'gymryd pob cam rhesymol' i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae sawl sefydliad yn dadlau, o gofio lefelau presennol colledion bioamrywiaeth, y dylai'r ddyletswydd ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus 'adfer' bioamrywiaeth yn ogystal â'i gynnal a'i wella.

59. Mae nifer o sefydliadau wedi tanlinellu inni y byddai cynnwys diffiniadau o fioamrywiaeth ac ecosystem yn helpu'r awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddehongli'r ddyletswydd. Mae rhai awdurdodau lleol a Dŵr Cymru'n tynnu sylw at ddiffyg eglurder o ran pa gamau ychwanegol y byddai'n ofynnol iddyn nhw eu cymryd er mwyn cyflawni'r ddyletswydd ac maen nhw wedi galw am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.[30]

60. Mae rhanddeiliaid yn croesawu'r ffaith bod dull adrodd wedi'i gynnwys ond yn gofyn am fwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na fyddai o reidrwydd yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus lunio adroddiad penodol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon ond y gallen nhw gyflwyno adroddiad drwy fecanweithiau eraill, megis adroddiadau neu gyfrifon blynyddol. Mae pryder wedi'i fynegi y gallai hyn arwain at ddarparu lefelau amrywiol o wybodaeth, gan ei gwneud

[29] EB 11 RSPB Cymru; EB 19 UKELA; EB 28 WTW ac EB 33 Cyngor Sir Ceredigion
[30] EB 54 Dŵr Cymru

yn anodd asesu'r gydymffurfiaeth. Mae nifer wedi gofyn hefyd sut y caiff effeithiolrwydd canlyniadau neu gamau a gymerir gan yr awdurdodau cyhoeddus ei fonitro a'i brofi.[31]

61. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau i'r awdurdodau cyhoeddus a fydd yn amlinellu'r wybodaeth berthnasol a all gael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn.[32] Er hynny, does dim gofyniad yn y Bil fod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o'r fath yn y dyfodol.

### *Ein barn ni*

62. Rydym yn cytuno â'r alwad am gryfhau'r ddyletswydd, ond nid ydym yn credu bod angen cynnwys 'adfer' ynddi. Rydym yn cytuno bod gwaith adfer yn holl-bwysig ond rydyn ni o'r farn bod y termau 'cynnal' a 'gwella' yn awgrymu bod rhaid i waith adfer gael ei wneud.

63. Mae'n dda gennym fod y Gweinidog wedi ymrwymo i lunio canllawiau ar y gofynion ynglŷn â chyflwyno adroddiadau o dan adran 6 ond rydym yn credu y dylai'r canllawiau hyn gynnwys gwybodaeth hefyd am y mathau o weithgareddau y disgwylir i'r cyrff a fydd yn dod o dan yr adran ymgymryd â nhw wrth roi'r ddyletswydd ar waith.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 6(1) o'r Bil o hepgor 'ceisio' ac i fewnosod 'cymryd pob cam rhesymol'.**

**Rydym yn argymell y dylai'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar y gofynion ynglŷn ag adroddiadau gynnwys gwybodaeth ychwanegol am y gweithgareddau y disgwylir i gyrff cyhoeddus ymgymryd â nhw er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd.**

### *Adran 7*

64. Yn ychwanegol at alw am gynnwys rhagor o ddarpariaethau ynglŷn ag ymgynghori yn yr adran hon a chryfhau'r ddyletswydd yn adran 7(3), mae'r rhanddeiliaid yn galw am greu gwell cysylltiadau rhwng adran 7 ac adrannau eraill yn Rhan 1.

---

[31] EB 28 WTW
[32] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.182

65. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai hyn gael ei gyflawni drwy wneud y canlynol:

- Ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd yn adran 6 gan gyfeirio at y rhestr yn adran 7;
- Cynnwys statws cynefinoedd a rhywogaethau yn y rhestr yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol;
- Nodi'r camau a gymerir i gynnal ac i wella'r rhywogaethau a restrir yn adran 7 yn yr NNRP ac mewn Datganiadau Ardal.

***Ein barn ni***

66. Roedd yn ymddangos bod y Gweinidog, wrth ymateb i'n cwestiynau ar 16 Medi, yn agored i awgrymiadau ynghylch sut y gallai'r rhan hon o'r Bil gael ei gwella.[33] Rydym yn credu y bydd creu cysylltiadau rhwng adrannau 6 a 7 yn creu strwythur adrodd ystyrlon a fydd yn caniatáu i gynnydd gael ei fonitro ochr yn ochr ag unrhyw ddangosyddion ehangach sy'n cael eu datblygu o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar ben hynny, bydd ymgorffori'r rhestr yn adran 7 yn y camau sydd i'w cymryd o dan yr NNRP a'r Datganiadau Ardal yn cynnig eglurder gwirioneddol i'r rhai sy'n cael eu gosod o dan y ddyletswydd sydd i'w sefydlu gan adran 6.

67. Yn y pen draw, rydym yn credu y bydd cysylltu'r rhestr yn adran 7 â'r dulliau gweithredu sydd i'w sefydlu gan y Bil (polisïau, adroddiadau, datganiadau a dyletswyddau) yn darparu fframwaith ystyron sydd â'r potensial i sicrhau canlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Heb y cysylltiadau hyn, mae adran 7 yn sefyll ar ei phen ei hun i raddau ac mae'r cysylltiad rhwng y ddyletswydd yn adran 6 a gweddill Rhan 1 yn aneglur. Bydd creu'r cysylltiadau hyn yn helpu i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau:**

- **i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd o dan adran 6 gan gyfeirio at y rhestr sy'n cael ei sefydlu o dan adran 7;**

[33] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.97

- **i’w gwneud yn ofynnol i’r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gynnwys asesiad o statws y cynefinoedd a’r rhywogaethau yn y rhestr yn adran 7; ac**

- **i’w gwneud yn ofynnol i’r NNRP a’r Datganiadau Ardal gynnwys y camau a gymerir i gynnal a gwella’r rhywogaethau yn y rhestr yn adran 7.**

**Targedau Bioamrywiaeth Statudol**

68. Mae nifer o sefydliadau amgylcheddol wedi dadlau o blaid cynnwys targedau bioamrywiaeth statudol yn y Bil.[34] Mae’r sefydliadau’n dadlau y byddai hyn yn cynyddu atebolrwydd Gweinidogion Cymru a CNC dros gyrraedd y targedau presennol. Maen nhw’n dweud y bydd yn anodd asesu, os nad oes targedau, a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at atal colledion bioamrywiaeth.

69. Gofynnodd Cwestiwn 1 yn ein Harolwg a oedd pobl o blaid cynnwys targedau i atal colledion bioamrywiaeth ac i adfer natur. O’r 1,663 o ymatebion a ddaeth i law, roedd 90 y cant o blaid eu cynnwys. Mae tri tharged wedi’u hawgrymu i’w cynnwys yn y Bil:

- Dyletswydd i gynyddu bioamrywiaeth 15 y cant erbyn 2020 o’i gymharu â mynegai cenedlaethol o rywogaethau â blaenoriaeth;

- Targed i sicrhau bod safleoedd gwarchodedig yng Nghymru mewn cyflwr manteisiol; a

- Chynnwys cerrig milltir tuag at y targedau hyn.

70. Yn ei sesiwn tystiolaeth lafar gyntaf, dywedodd y Gweinidog ei fod heb gael ei argyhoeddi eto gan y ddadl o blaid targedau.[35]

71. Yn ystod ei ail sesiwn gyda ni, eglurodd y Gweinidog y byddai strwythur ar gyfer mesur cynnydd, a fyddai’n cynnwys cerrig milltir a thargedau, yn cael ei ddarparu o dan Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol ac y byddai’n ymgynghori yn ei gylch cyn hir.[36]

---

[34] EB 7 BCT; EB 11 RSPB; EB 28 WTW
[35] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.192
[36] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.95

***Ein barn ni***

72. O ran egwyddor, rydym yn fodlon ar yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i amlinellu. Hynny yw, os gall set ystyrlon o ddangosyddion gael ei datblygu o dan y ddeddfwriaeth bresennol yna does dim angen eu cynnwys ar wyneb y Bil hwn. Er mwyn i'r Cynulliad a'r rhanddeiliaid fod yn hyderus yn y casgliad hwn, bydd arnon ni angen rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog am yr ymgynghori y mae'n ei gynnig. Rydym yn bendant y dylai unrhyw set o ddangosyddion gael ei seilio ar rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth ac rydym yn nodi cyngor yr Athro Lawton inni yn hyn o beth.[37]

73. Yn ychwanegol, o ddiwygio'r Bil i ymgorffori rhestr adran 7 mewn agweddau eraill ar Ran 1, rydym yn credu y bydd hynny'n rhoi eglurder ynghylch y camau sydd i'w cymryd a'r canlyniadau sydd i'w sicrhau dros amser (gweler argymhelliad 15 uchod).

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r raddfa a'r amserlen ar gyfer ei hymgynghoriad ynghylch elfen bioamrywiaeth dangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r dangosyddion hyn. I ganiatáu i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y Bil, rydym yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, sef 27 Tachwedd 2015 ar hyn o bryd.**

**Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol**

74. Ceir cefnogaeth sylweddol ymysg y rhanddeiliaid i'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i CNC baratoi a chyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ('SoNaRR').[38]

75. Mae nifer o dystion ac ymatebwyr wedi awgrymu y dylai fod yn ofynnol i'r SoNaRR asesu'r risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

76. Pwysleisiodd yr Athro Marsden (Prifysgol Caerdydd), yr Athro Dwyer a'r Dr Berry (ill dau o Brifysgol Sir Gaerloyw) mor bwysig yw asesu tueddiadau hanesyddol a thueddiadau'r dyfodol ynglŷn â rheoli

[37] Sylwadau gan yr Athro Syr John Lawton, 25 Mehefin 2015
[38] EB 02 CPRW, EB 11 RSPB, EB 13 Cynghrair y Parciau Cenedlaethol

cynaliadwy ar adnoddau naturiol, hynny yw nid eu cyflwr presennol yn unig.[39]

77. Galwodd y panel hwn am i'r Bil gynnwys gofyniad bod rhaid i CNC ystyried data'r gorffennol er mwyn caniatáu i ddata rhagfynegol gael ei greu er mwyn rhag-weld materion ynglŷn â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol at y dyfodol. Mae hyn yn ychwanegol at asesu cyflwr presennol yr adnoddau naturiol.[40]

78. Gofynnwyd am eglurhad a fyddai'r SoNaRR yn cynnwys data morol.

### *Ein barn ni*

79. Rydym yn croesawu'r ffaith bod adroddiad statudol ar gyflwr yr adnoddau naturiol yng Nghymru yn cael ei sefydlu. Dyma gam cadarnhaol y mae angen mawr amdano tuag at wella'r gronfa wybodaeth y gall polisïau gael eu datblygu arni a thuag at fonitro a yw'r polisïau'n sicrhau'r canlyniadau cywir.

80. I'n helpu i ddeall y Bil, aethom i gysylltiad ag arbenigwyr academaidd ym maes rheoli adnoddau naturiol. Cododd yr academyddion hyn y pwynt y dylai'r SoNaRR gynnwys ystyriaeth ar ddata'r gorffennol er mwyn caniatáu i ddata rhagfynegol gael ei greu er mwyn rhag-weld materion ynglŷn â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol at y dyfodol. Mae hyn yn arwain at asesu'r risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

81. Rydym yn cefnogi'r alwad hon. Bydd cynnwys ystyriaeth o'r fath yn gwella'r gronfa dystiolaeth y caiff yr NNRP ei ddatblygu arni.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gynnwys asesiad o dueddiadau'r gorffennol a'r dyfodol (gan gynnwys y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol) yn ychwanegol at asesiad o gyflwr presennol adnoddau naturiol yng Nghymru. Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried manteision neu anfanteision pennu hyn ar wyneb y Bil.**

---

[39] Cofnod y Trafodion 2 Gorffennaf 2015 c.32-35
[40] Ibid

**Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol**

82. Mae'r rhanddeiliaid yn cefnogi'r cynnig i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi NNRP. Er hynny, mae'r rhanddeiliaid yn galw hefyd am ragor o eglurder ynghylch cynnwys yr NNRP, yr hyn y bydd yn ei gyflawni a sut. Mae sawl un yn dadlau y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys amcanion a chamau gan bennu amserlen a blaenoriaethau ar eu cyfer. Mae'r undebau amaethu ac RSPB Cymru yn galw am fwy o eglurder ynghylch sut y bydd yr NNRP yn effeithio ar y cynllun Glastir a'r Cynllun Datblygu Gwledig ac yn dylanwadu arnyn nhw.

***Ein barn ni***

83. Er bod adran 9(2) yn rhoi amlinelliad sylfaenol o'r hyn y mae'n rhaid i'r NNRP ei gynnwys, byddai'n fanteisiol i'r rhai sy'n dehongli'r adran hon pe ceid rhagor o eglurder ynglŷn â strwythur arfaethedig yr NNRP. Rydyn ni hefyd yn cefnogi galwadau am fwy o eglurder o ran sut gydadwaith a geir rhwng yr NNRP a Glastir a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi meini prawf manylach ynglŷn â chynnwys gorfodol NNRP.**

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yr NNRP yn cydadweithio â Glastir a'r Cynllun Datblygu Gwledig.**

84. Mae rhai rhanddeiliaid a thystion yn galw hefyd am i'r NNRP nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn mynd i'r afael â heriau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

85. Mae hyn yn cyd-fynd â'n casgliadau ni ynghylch yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ac rydym yn credu y gallai hyn gael ei wneud drwy welliant syml i'r Bil.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 9(2) o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod unrhyw heriau i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ochr yn ochr â'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol.**

86. Mae adran 9(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi NNRP sy'n nodi eu 'polisïau cyffredinol a phenodol ar gyfer cyfrannu at gyflawni' rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Mae'r rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylai'r geiriau 'cyfrannu at' gael eu dileu er mwyn cryfhau'r ddyletswydd.

87. Mae adran 9(6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r NNRP ar ôl etholiad cyffredinol i'r Cynulliad, ond mae rhai sefydliadau amgylcheddol wedi galw am i'r Bil gynnwys amserlen fwy penodol ar gyfer adolygu'r NNRP e.e. o fewn deuddeng mis ar ôl etholiad cyffredinol i'r Cynulliad.

88. Yn ystod ein sesiwn ar 16 Medi 2015, esboniodd y Dr Fraser, Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, y câi'r NNRP cyntaf ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2017 a'i fod yn debyg o gael ei adolygu tua diwedd 2019.[41]

89. Mae'r amserlen hon yn awgrymu y byddai'n bosibl i'r ail NNRP fod yn barod i'w gyhoeddi yn gynnar yn y Chweched Cynulliad, hynny yw o fewn deuddeng mis ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

90. Byddai darparu amserlen fwy penodol ar gyfer adolygu'r NNRP yn cynnig rhywfaint o sicrwydd y caiff ei ddiweddaru'n gyson. Rydym yn credu bod yr awgrym gan y sefydliadau amgylcheddol yn rhesymol, sef y dylai'r NNRP gael ei adolygu o fewn deuddeng mis ar ôl etholiad cyffredinol i'r Cynulliad.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 9(6)(a) er mwyn gosod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i adolygu'r NNRP o fewn deuddeng mis ar ôl etholiad cyffredinol i'r Cynulliad.**

### Datganiadau Ardal

91. Yng nghyd-destun Rhan 1 o'r Bil, y darpariaethau sy'n ymwneud â chyhoeddi a pharatoi Datganiadau Ardal gan CNC yw'r rhai sydd wedi peri'r pryder mwyaf i'r rhanddeiliaid.

92. Mae'r pryder hwn, at ei gilydd, yn deillio o ddiffyg eglurder ynghylch y canlynol:

- rhychwant daearyddol y Datganiadau Ardal;
- a fyddan nhw'n ymdrin â Chymru gyfan ynteu rhan yn unig;

[41] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.65

- y trefniadau llywodraethu a gaiff eu sefydlu er mwyn cyflawni'r datganiadau a sut y caiff rhanddeiliaid y tu allan i gyrff cyhoeddus eu cynnwys;
- yr amserlen ar gyfer llunio'r datganiadau a'r cyfnodau amser y byddan nhw'n eu cynnwys;
- a fydd y datganiadau'n gynlluniau gweithredu neu dim ond yn ddatganiadau ar gyflwr yr amgylchedd lleol; a
- sut y cân nhw eu monitro a'u meincnodi yn erbyn ei gilydd a sut y bydd CNC yn sicrhau eu bod yn gyson ar draws ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

***Rhychwant***

93. Ceir consensws eang yn y dystiolaeth y dylai datganiadau ardal rychwantu Cymru gyfan a disgwylir y bydd angen i'r datganiadau fod yn gynlluniau gweithredu. Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch cynnwys y datganiadau. Does dim ateb pendant wedi'i gynnig o ran rhychwant daearyddol yr ardaloedd ac ni chawsom alwadau am i'r rhain gael eu diffinio yn y ddeddfwriaeth. Mae Atodiad 3 o lythyr y Gweinidog aton ni ar 3 Medi 2015 yn amlinellu disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd Datganiadau Ardal yn ymdrin â holl ardaloedd tir ac arfordir Cymru maes o law ond na fyddan nhw'n cynnwys ardaloedd morol. Mae'n dweud y caiff y rheiny eu cynnwys gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Nid yw'r Atodiad yn dweud a gaiff y Bil ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Ddatganiadau Ardal gael eu datblygu ar gyfer Cymru gyfan.[42]

94. Ar 16 Medi rhoddodd y Gweinidog ragor o sicrwydd fod Datganiadau Ardal i gael eu datblygu ar gyfer Cymru yn ei chrynswth.[43]

***Ein barn ni***

95. Mae'n dda gennym fod y Gweinidog wedi cadarnhau hyn. Dydyn ni ddim yn amau ei fwriad i ddatblygu Datganiadau Ardal i Gymru gyfan. Wrth graffu ar y Bil, mae'n rhaid hefyd inni ystyried sut y caiff darpariaethau'r Bil eu cymhwyso yn y tymor hirach a'r ffaith ei bod yn

---

[42] Llythyr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Bil yr Amgylchedd (Cymru)*, 3 Medi 2015
[43] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.62

bosib na fydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn arddel yr un safbwynt â'r Gweinidog presennol. Er mwyn sicrhau bod Datganiadau Ardal yn ymdrin â Chymru gyfan yn y dyfodol, mae angen i'r Bil gael ei ddiwygio i ddarparu ar gyfer hynny.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i CNC lunio Datganiadau Ardal sydd gyda'i gilydd yn ymdrin â holl ardaloedd tir ac arfordir Cymru.**

96. Mae'r rhanddeiliaid a CNC wedi mynegi'r disgwyliad y bydd Datganiadau Ardal yn cynnwys camau tuag at gyflawni'r datganiadau.[44] Dydyn ni ddim yn siŵr y bydd hynny'n wir. Yn ein cyfarfod ar 16 Medi, dywedodd y Gweinidog hyn:

> "They [Datganiadau Ardal] provide an evidence base, providing information on the natural resources in an area, the benefits that they provide in evidence relating to the priorities, risks and opportunities that need to be addressed in that area"[45]

97. Mae hyn yn awgrymu mai'r bwriad yw cynnig cronfa dystiolaeth yn hytrach na set o gamau tuag at gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn ardal yng Nghymru.

### *Ein barn ni*

98. Serch mor bwysig yw cronfa dystiolaeth gref – sef rhywbeth rydyn ni wedi galw amdano o'r blaen – rydyn ni'n cytuno â barn y rhanddeiliaid y dylai'r datganiadau hyn gynnwys camau hefyd sy'n gysylltiedig a chyflawni'r NNRP.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r argymhelliad hwn yn y Cyfarfod Llawn, nodi bwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â Datganiadau Ardal ac a ydyn nhw am gynnwys camau gweithredu yn ogystal â chronfa dystiolaeth.**

### *Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus*

99. Er bod y rhanddeiliaid yn derbyn bod angen i Ddatganiadau Ardal ymdrin â chyfnodau hir o amser (ac y dylen nhw wneud hynny), maen nhw'n gofyn am fwy o eglurder ynghylch y cyfnodau amser y caiff y

---

[44] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.493-4
[45] Ibid

datganiadau eu llunio a'u hadolygu o'u mewn. Cafwyd galwadau cryf am i'r adran hon o'r Bil gynnwys darpariaethau penodol ynghylch ymgynghori ac mae argymhelliad 9 uchod yn ymdrin â hyn. Mae'r rhanddeiliaid yn cytuno y bydd cysylltiadau â byrddau gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig ond maen nhw'n dweud bod aelodaeth y byrddau hyn yn golygu na fyddan nhw'n ddigonol fel yr unig fecanwaith llywodraethu. Maen nhw'n galw am eglurder ynghylch rôl rheolwyr tir a rhanddeiliaid amgylcheddol wrth gyflawni'r datganiadau. Bernir bod gofynion ynghylch monitro a meincnodi Datganiadau Ardal yn holl-bwysig.

100. Mae yna bryder hefyd o ran pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni Datganiadau Ardal. Mae'r rhanddeiliaid wedi nodi bod cylch gorchwyl CNC yn rhy gul i ganiatáu iddo gyflawni'r holl gamau a allai gael eu cynnwys mewn Datganiad Ardal ac y bydd angen i'r cyfrifoldeb hwn gael ei rannu gan eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae CNC ei hun wedi amlinellu na all ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar ei ben ei hun dros gyflawni Datganiadau Ardal ac y dylid gosod rhwymedigaethau dros wneud hynny ar bob corff cyhoeddus. Mae RSPB Cymru ac UKELA wedi tanlinellu nad yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru fabwysiadu'r Datganiadau Ardal ar ôl iddyn nhw gael eu cwblhau na'u cyflawni, o dan y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio. Er bod adran 13 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo corff cyhoeddus i 'gymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' i fynd i'r afael â materion mewn Datganiadau Ardal, nid yw cyrff cyhoeddus o dan ddyletswydd gyffredinol i'w rhoi nhw ar waith.

### *Ein barn ni*

101. Os bwriedir i Ddatganiadau Ardal chwarae'r rhan yr ydym yn credu ei bod wedi'i rhag-weld ar eu cyfer, yna mae angen iddyn nhw gael eu rhoi ar waith gan sefydliadau heblaw CNC ar ei ben ei hun. Y ffordd fwyaf cadarn o sicrhau hyn yw gosod cyrff cyhoeddus yn ychwanegol at Weinidogion Cymru o dan ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i'w rhoi ar waith. Fel yn achos y pwynt uchod ynghylch rhychwant Datganiadau Ardal, mae'n rhaid i'r Bil fod yn ddigon cryf i glymu gweinyddiaethau yn y dyfodol i ddarpariaethau'r Bil os bwriedir sicrhau effaith y Bil yn y tymor hirach.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i gymryd pob cam rhesymol i roi Datganiadau Ardal ar waith.**

### *Amserlenni*

102. O gofio'r diffyg amserlenni yn y Bil ynglŷn â pharatoi, cyhoeddi ac adolygu Datganiadau Ardal, mae'r rhanddeiliaid wedi mynegi pryder hefyd ynghylch atebolrwydd CNC os ceir oedi arwyddocaol wrth eu llunio. Mae rhai wedi awgrymu y dylai CNC fod o dan rwymedigaeth o leiaf i restru neu ddiffinio'r ardaloedd y mae'n bwriadu llunio Datganiadau Ardal ar eu cyfer o fewn 12 mis ar ôl i NNRP gael ei gyhoeddi a gorfod adolygu Datganiadau Ardal os bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r NNRP ar unrhyw adeg. Ar hyn o bryd does dim gofyniad yn y Bil fod rhaid i CNC gymryd yr NNRP i ystyriaeth wrth gynllunio Datganiadau Ardal er bod y Gweinidog wedi dweud y byddai'n disgwyl iddyn nhw wneud hynny.

103. Eglurodd y Dr Fraser yr amserlen ddisgwyliedig ynglŷn â llunio Datganiadau Ardal, gan ddweud y câi Cymru gyfan ei thrafod erbyn diwedd 2019.[46]

### *Ein barn ni*

104. Rydyn ni'n fodlon ar yr eglurhad hwn, ond rydym wedi gofyn am gadarnhad mewn ysgrifen gan y Gweinidog.

### *Adnoddau CNC*

105. Ceir pryder cyffredinol hefyd ymysg y rhanddeiliaid ynghylch adnoddau a chapasiti CNC i baratoi a chyhoeddi Datganiadau Ardal, cyflawni eu rhwymedigaethau ychwanegol o dan y Bil hwn, eu cyfrifoldebau newydd o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cynllunio (Cymru) a'u swyddogaethau a'u rhwymedigaethau presennol. Dywedodd CNC nad yr opsiwn a nodwyd yn yr RIA sy'n cyd-fynd â'r Bil oedd eu dewis opsiwn nhw ar gyfer Datganiadau Ardal. Dywedodd CNC wrthon ni fod y ffigurau a gynhwyswyd yn yr RIA wedi'u cyfrifo ar adeg gynnar yn natblygiad y Bil a'u bod nhw wrthi'n trafod gyda Llywodraeth Cymru felly ynglŷn â'r lefel adnoddau a fyddai'n angenrheidiol.[47]

[46] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.65
[47] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.497

### *Ein barn ni*

106. Rydym yn pryderu ynglŷn â'r goblygiadau ariannol ar gyfer CNC wrth ymgymryd â'r ddyletswydd newydd hon yn ychwanegol at y gofynion sydd eisoes wedi'u gosod arnyn nhw. Yng ngoleuni'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau a gynhwyswyd yn yr RIA ac er mwyn helpu'r Aelodau a'r rhanddeiliaid wrth iddyn nhw graffu ar y Bil, rydym yn credu bod angen gwybodaeth ddiwygiedig.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau diwygiedig ar gostau rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith a'r adnoddau a fydd ar gael i CNC i gyflawni'r swyddogaethau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn.**

## Cynlluniau Arbrofol

107. Mae yna gefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o roi pwerau ehangach i CNC i gynnal cynlluniau arbrofol o dan adrannau 23-24 o'r Bil. Er hynny, mae rhywfaint o bryder wedi'i fynegi ynghylch y cynnig i ganiatáu i CNC wneud cais i Weinidogion Cymru am atal gofynion statudol presennol am hyd at chwe blynedd er mwyn cynnal cynlluniau peilot. Mynegodd UKELA a'r Athro Lawton bryder ynghylch y cynsail a gâi ei osod.[48] Mae'r rhanddeiliaid wedi bod yn pryderu ynglŷn â'r enghreifftiau a roddwyd yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, o'r mathau o gynllun arbrofol a allai gael eu cynnig. Mae tirfeddianwyr yn pryderu ynghylch yr awgrym y gallen nhw gael eu defnyddio i gyflwyno Rheolau Cyfrwymol Cyffredinol heb ymgynghori priodol ac mae sefydliadau amgylcheddol yn pryderu ynglŷn â'r awgrym y gallen nhw gael eu defnyddio i lacio dyletswyddau ym maes cadwraeth. Ceir galw felly am i ddulliau diogelu ychwanegol ynglŷn â'r pwerau hyn gael eu cynnwys yn y Bil, sef:

- darpariaethau ymgynghori mwy trylwyr;
- cwblhau asesiad risg cyn i gais gael ei gymeradwyo;
- rhai rheolau ar y mathau o gynlluniau a fyddai'n gymwys; a
- gofynion ar CNC i fonitro effeithiau unrhyw gynlluniau a gâi eu cynnal, cyflwyno adroddiadau arnyn nhw a'u cyhoeddi.

108. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi ac yn nhystiolaeth ysgrifenedig CNC mae awgrym wedi'i roi o ran y math o wybodaeth y byddai angen i CNC ei rhoi i Weinidogion Cymru wrth wneud cais a'r math o waith monitro y gallai CNC ei wneud. Mae'r Gweinidog yn dweud yn yr wybodaeth ychwanegol a roddwyd inni y byddai manylion y cynlluniau ar gael i'r rhanddeiliaid drwy gyfrwng ymgynghori. Nid yw'r un o'r ymrwymiadau hyn wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil.

### *Ein barn ni*

109. Rydym yn credu y byddai sicrhau tryloywder ynghylch y broses hon yn cynnig sicrwydd arwyddocaol i'r rhanddeiliaid ac i'r Cynulliad. Mae modd gwneud hyn drwy osod rhai o'r bwriadau y mae'r Gweinidog wedi'u datgan ar wyneb y Bil.

[48] EB 19 UKELA; Sylwadau'r Athro Syr John Lawton, 25 Mehefin 2015

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod dyletswyddau ychwanegol ar CNC:**

- **i baratoi a chyhoeddi asesiad risg cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru; ac**
- **i fonitro effeithiau unrhyw gynlluniau a gaiff eu cynnal, cyflwyno adroddiadau arnyn nhw a'u cyhoeddi.**

## 3. Rhan 2: Newid Hinsawdd

### Targed 2050

110. Mae'r targed o ostyngiad o 80 y cant o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050 wedi'i groesawu gan y mwyafrif o'r rhanddeiliaid, ond mae eraill, gan gynnwys Canolfan Tyndall, yn awgrymu y dylid gosod targed uwch os bwriedir adlewyrchu'r brys i gymryd camau ynglŷn â newid hinsawdd.[49] Mae rhai o'r rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai darpariaethau gael eu cynnwys i ganiatáu i'r targed gael ei adolygu a'i amrywio yn ngoleuni tystiolaeth wyddonol ynghylch gostyngiadau a allai fod yn angenrheidiol er mwyn cadw tymheredd y byd o fewn 2 radd ganradd. Mae papur tystiolaeth Canolfan Tyndall, a gyflwynwyd fel rhan o'i hymateb ymgynghori, yn rhoi rhagor o fanylion.

111. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Dr Wood o Ganolfan Tyndall y byddai'n argymell cynnwys cymal o'r fath yn y Bil, neu un a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori adolygu targed 2050 bob pum mlynedd i asesu ei addasrwydd.[50] Mae nifer o'r rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai'r targedau gymryd i ystyriaeth hefyd egwyddorion cyfiawnder byd-eang, tegwch a chyfrifoldebau byd-eang Cymru sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

112. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd cwmni dur Tata fod yna ben draw ar y gostyngiadau carbon deuocsid sy'n bosibl wrth weithgynhyrchu dur, ac nad yw'r sector dur yn debyg o lwyddo i sicrhau mwy na gostyngiad o 10 i 15 y cant. Ychwanegodd y cwmni nad yw'r targed o 80 y cant yn gyraeddadwy i'r sector dur heb dechnoleg gwbl newydd nad yw ar gael eto. Er hynny, cydnabu Tata y gallai fod modd o hyd i Gymru yn ei chrynswth gyrraedd y targed.[51] Mae rhanddeiliad diwydiannol ac amaethyddol eraill yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â gosod cyfradd uwch ar gyfer gostwng allyriadau yng Nghymru na gweddill y Deyrnas Unedig, gan fynegi pryder hefyd y gallai targedau osod Cymru o dan anfantais o'i chymharu ag Aelod-wladwriaethau eraill.

113. Dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth lafar fod y targed yn gyson â darpariaeth y Deyrnas Unedig ac â thargedau rhyngwladol

[49] EB 20 Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
[50] Cofnod y Trafodion 8 Gorffennaf 2015 c.30
[51] Cofnod y Trafodion 2 Gorffennaf 2015 c.460-544

ehangach, ac nad yw defnyddio 'o leiaf' yn atal y Gweinidogion rhag mynd ymhellach na'r targed os ydyn nhw'n dymuno.[52]

***Ein barn ni***

114. Mae'n bosibl y bydd y gymuned ryngwladol yn gosod targedau diwygiedig ar gyfer 2050 yn ystod y 35 mlynedd nesaf. Er bod elfen o hyblygrwydd ar gael yng ngeiriad y targed, byddai cyflwyno rôl i'r corff cynghori a darparu pŵer i amrywio'r targed yn cynnig strwythur cryfach ar gyfer ymateb i ddatblygiadau yn yr ymdrechion byd-eang i ostwng allyriadau.

115. Ar ben hynny, byddai cynnwys yr egwyddor o gadw cynhesu byd-eang o fewn 2 radd ganradd yn y meini prawf y mae'n rhaid i'r Gweinidogion eu hystyried wrth osod targedau a chyllidebau carbon (adran 32(3)) yn ymgorffori'r nod hwnnw yn y ddeddfwriaeth ac mae'n cyd-fynd â'r hyblygrwydd estynedig i ymateb i dystiolaeth newydd yr ydym yn dadlau o'i blaid uchod.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r corff cynghori adolygu pa mor ddigonol yw targed 2050 a chyflwyno adroddiad ar hynny bob pum mlynedd.**

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru amrywio targed 2050 drwy reoliadau (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol).**

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 32(3) o'r Bil i fewnosod yr egwyddor o gadw cynhesu byd-eang o fewn 2 radd ganradd yn y meini prawf y mae'n rhaid i'r Gweinidogion eu hystyried wrth osod targedau a chyllidebau carbon.**

### Targedau Interim

116. Mae rhai o'r rhanddeiliaid yn galw am gynnwys targedau interim ar wyneb y Bil, ac mae eraill yn credu mai annigonol yw'r cynnig i'w cynnwys mewn rheoliadau. Mewn tystiolaeth lafar, gwrthododd y

---

[52] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.201

Gweinidog y syniad o osod targedau interim ar wyneb y Bil.[53] Ymysg y rhai sydd o blaid eu cynnwys, ceir rhywfaint o gefnogaeth i gynnwys y targed o 40 y cant erbyn 2020 sydd wedi'i gynnwys yn Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru, naill ai ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau. Cafwyd rhai galwadau am gynnwys mwy nag un targed interim er mwyn caniatáu i lwybr serth gael ei osod ar gyfer gostwng allyriadau. Mae nifer o'r rhanddeiliaid hefyd yn awgrymu y byddai cynnwys targedau interim yn cynnig sicrwydd a momentwm yn y cyfnod cyn i'r cyllidebau carbon gael eu gosod yn 2018. Mae'r rhanddeiliaid yn galw am eglurder ynghylch pa bryd y câi'r targedau interim eu cyflwyno, gan nad oes amserlen wedi'i chynnwys yn y Bil, ac mewn tystiolaeth lafar dywedodd y Gweinidog a'i swyddogion fod angen i'r targedau interim gael eu datblygu cyn i'r cyllidebau carbon gael eu gosod yn 2018.[54]

117. Gofynnodd ein Harolwg i'r ymatebwyr ddweud a oedden nhw'n credu y dylai targedau interim gael eu cynnwys yn y Bil; dywedodd 83 y cant o'r ymatebwyr 'dylai', dywedodd 10 y cant 'na ddylai', a doedd 7 y cant 'ddim yn gwybod'.

118. Amlinellodd y Gweinidog ei farn ef y byddai cynnwys targedau interim ar wyneb y Bil yn anhyblyg.[55] Dywedodd swyddogion o Lywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor y câi rheoliadau a fyddai'n gosod targed(au) interim eu cyhoeddi cyn i'r gyllideb garbon gyntaf gael ei mabwysiadu.[56]

### *Ein barn ni*

119. Rydym yn cytuno nad oes angen i dargedau interim fod ar wyneb y Bil. Mae angen rhagor o wybodaeth cyn i'r Cynulliad orffen ystyried y Bil hwn os ydyn ni am gael ein hargyhoeddi nad oes angen i dargedau interim gael eu cynnwys ar wyneb y Bil.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi rhychwant ac amserlen ei hymgynghoriad ar dargedau interim ac amserlen ar gyfer cyflwyno'r targedau hynny. Er mwyn caniatáu i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y Bil, rydym yn gofyn i'r wybodaeth hon**

---

[53] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.203
[54] Ibid c.209-10
[55] Ibid c.203
[56] Ibid c.210

**gael ei chyhoeddi cyn diwedd trafodion Cyfnod 2, sef 27 Tachwedd 2015 ar hyn o bryd.**

### Allyriadau i'w cynnwys

120. Mae yna gefnogaeth eang i fesur allyriadau ar sail cynhyrchu, ond mae rhai o'r rhanddeiliaid hefyd yn argymell cynnwys darpariaeth ar wahân a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiadau ar allyriadau defnyddio.

121. Mae Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn awgrymu y gallai allyriadau cynhyrchu fod yn fan cychwyn call i Gymru, ond mae'n awgrymu mesur a chyflwyno adroddiadau ar allyriadau defnyddio ochr yn ochr â hyn yn y Bil.[57] Mae'r rhanddeiliaid yn nodi bod gofyniad annibynnol ynghylch cyflwyno adroddiadau ar allyriadau defnyddio wedi'i gynnwys yn Neddf Newid Hinsawdd yr Alban.[58]

### *Ein barn ni*

122. Bydd adroddiadau ar allyriadau defnyddio yn darparu gwybodaeth ychwanegol bwysig a all gael ei defnyddio i asesu'r cynnydd tuag at darged 2050 mewn modd mwy deallus. Mae'n ymddangos bod hynny'n arbennig o bwysig yng Nghymru o gofio'r cydbwysedd perthnasol rhwng lleiafrif o allyrwyr graddfa fawr a defnydd yr allbynnau sy'n cael eu creu gan yr allyrwyr hynny o fewn Cymru. Dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad bod rhaid cyflwyno adroddiadau ar sail defnyddio yn ogystal ag ar sail cynhyrchu.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiadau ar sail defnyddio yn ogystal ag ar sail cynhyrchu.**

### Cyllidebau Carbon

### *Amseru*

123. Mynegodd y rhanddeiliaid gefnogaeth eang i ddefnyddio cyllidebau carbon, ond cafodd rhai pryderon eu mynegi ynghylch amseru gosod y gyllideb gyntaf. Er bod y Bil yn cynnig y dylai'r gyllideb garbon gyntaf ymdrin â'r cyfnod 2016-2020, nid yw'n ei gwneud yn

---

[57] Cofnod y Trafodion 2 Gorffennaf 2015 c.594-99

[58] Ibid c.653

ofynnol i'r ddwy gyllideb garbon gyntaf gael eu cyhoeddi tan ddiwedd 2018.

124. Mewn tystiolaeth lafar dywedodd Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gosod y tair cyllideb garbon gyntaf (o'i gyferbynnu â'r ddwy gyntaf) yn 2018.[59] Yn ychwanegol, dywedodd Pwyllgor y Deyrnas Unedig fod yr amserlen arfaethedig bresennol ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb garbon gyntaf (diwedd 2018) yn golygu na fydd y gyllideb gyntaf ond yn gallu bod yn waelodlin ar gyfer mesur cynnydd yn y dyfodol, gan na fydd fawr o amser ar gael i ddiwydiant, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd weithredu er mwyn cyflawni (sef dwy flynedd).[60] Cafodd pryder ei fynegi felly gan randdeiliaid amgylcheddol ynglŷn â'r cyfnod amser a fydd yn mynd heibio cyn i'r gyllideb garbon gyntaf gael ei gosod.

125. Rydyn ni wedi cael rhagor o wybodaeth gan Bwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd sy'n dweud y dylai'r pwyllgor allu:

> "[…]provide advice to the Welsh Government on the first two or three carbon budgets during the 2nd half of 2016. Extending the advice to the first three carbon budgets does not have any time implications for us, by that time the UK will already have legislated budgets to 2032 and our analysis for the UK (which would be the starting point for the advice to Wales) will go out to 2035."[61]

126. Mae Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn dweud bod hyn yn amodol ar gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

### *Ein barn ni*

127. Rydym yn credu y dylai ac y gallai'r gyllideb gyntaf gael ei llunio'n gynt na diwedd 2018. Rydyn ni'n credu hefyd y byddai'n fuddiol gosod y tair cyllideb garbon gyntaf erbyn diwedd 2018 am y rhesymau a nodwyd gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd. Yn ngoleuni'r wybodaeth a gawsom gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr

---

[59] Cofnod y Trafodion 2 Gorffennaf 2015 c.621
[60] Ibid c.566
[61] Ebost gan Brif Weithredwr y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd at Gadeirydd y pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 29 Medi 2015

Hinsawdd, rydym yn credu y byddai'n bosibl cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd 2017.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r gyllideb garbon gyntaf gael ei gosod yn gynt na diwedd 2018 ac i'r ail gyllideb garbon a'r drydedd gael eu cyhoeddi cyn diwedd 2018.**

### *Cyfrif allyriadau net Cymru*

128. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar sut y bydd credydau carbon a fydd yn cael eu masnachu gan gwmnïau Cymreig, fel rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE ('EU ETS') neu gynllun masnachu carbon arall, yn cael eu disgrifio yng nghyfrif allyriadau net Cymru.

129. Bydd unedau carbon a fydd yn cael eu gwerthu gan gwmnïau Cymreig yn cael eu tynnu o'r cyfrif, gan gynyddu allyriadau net Cymru. Bydd unedau carbon a brynir gan gwmnïau Cymreig yn cael eu credydu i gyfrif Cymru ac yn lleihau allyriadau net Cymru.

130. O gofio canran uchel y cwmnïau yng Nghymru sy'n rhan o'r EU ETS, mae'r rhanddeiliaid o'r farn bod y rheoliadau a fydd yn llywodraethu i ba raddau y gall credydau carbon gael eu hychwanegu at allyriadau net Cymru a'u tynnu oddi arnyn nhw yn bwysig, gan y gallai hyn bennu a fydd Cymru'n cyrraedd ei thargedau ynglŷn ag allyriadau neu beidio.

131. Yn ychwanegol, mae'r rhanddeiliaid yn poeni y gallai caniatáu i nifer fawr o gredydau carbon gyfrif tuag at allyriadau net Cymru olygu bod gostyngiadau mewn allyriadau yn deillio o brynu credydau rhyngwladol yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i ostwng yr allyriadau yma yng Nghymru.

132. Mae adran 33(2) o'r Bil yn dweud bod Gweinidogion Cymru yn cael mynd ati drwy reoliadau i osod cyfyngiad ar y credydau carbon a all gael eu cyfrif tuag at allyriadau net Cymru. Mae'r rhanddeiliaid wedi nodi bod y Gweinidogion o dan ddyletswydd, yn Neddfau Hinsawdd y Deyrnas Unedig a'r Alban, i gyhoeddi rheoliadau sy'n cyfyngu ar nifer yr unedau carbon a all gael eu credydu.

133. Yn ei lythyr aton ni ar 3 Medi 2015, mae'r Gweinidog yn dweud mai pŵer wedi'i gadw yw hwn yn hytrach na dyletswydd oherwydd pe na bai masnachu carbon yn cael ei ganiatáu ar ryw adeg yn y dyfodol,

byddai'r pŵer yn ddiangen. Er hynny, mae'r Gweinidog yn mynd yn ei flaen i ddweud ei fod wrthi:

> "considering this matter further and acknowledges our comments on the desirability to limit the net amount of credits by which the net Welsh emissions may be reduced"[62].

### *Ein barn ni*

134. Mae'n dda gennym fod y Gweinidog yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater hwn. Dydyn ni ddim wedi cael ein hargyhoeddi gan ei ddadl mai pŵer wedi'i gadw yw hwn yn hytrach na dyletswydd, gan y gallai'r ddadl honno gael ei defnyddio dros unrhyw ddyletswydd statudol, bron. Safbwynt rhy ofalus i'w arddel yw hwn. Cymharol isel yw'r risg na fyddai masnachu carbon yn cael ei ganiatáu mwyach ac mae manteision gosod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i gyhoeddi rheoliadau yn drech na'r risg.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i newid y pŵer yn adran 33(2) yn ddyletswydd.**

### *Paramedrau a chanllawiau*

135. Er bod y Bil eisoes yn cynnwys rhai paramedrau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu cymryd i ystyriaeth wrth osod targedau interim a chyllidebau, mae'r rhanddeiliaid wedi galw am i'r rhain gael eu hymestyn. Maen nhw wedi cyfeirio at y paramedrau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys effaith targedau a chyllidebau ar ffactorau megis tlodi tanwydd, cystadleurwydd diwydiant a safbwynt ariannol y Llywodraeth.

136. Yn Neddf Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig mae'r paramedrau hyn yn gymwys nid yn unig i'r Gweinidogion ond hefyd i'r corff cynghori wrth iddo roi ei gyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mewn tystiolaeth lafar, siaradodd Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn bur fanwl am baramedrau a chanllawiau a allai gael eu hystyried wrth osod cyllidebau carbon. Dywedodd Pwyllgor y Deyrnas Unedig eu bod yn gweld bod ymestyn y paramedrau i'w cyngor nhw'n werthfawr iawn.[63] Mae NGOs amgylcheddol wedi galw am i'r Bil gael ei

---

[62] Llythyr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Bil yr Amgylchedd (Cymru), 3 Medi 2015
[63] Cofnod y Trafodion 2 Gorffennaf 2015 c.570

ddiwygio er mwyn ymestyn y paramedrau sydd wedi'u gosod ar gyfer y corff cynghori yng Nghymru.

### *Ein barn ni*

137. Yng ngoleuni barn y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd ar fantais ymestyn y paramedrau hyn i'r corff cynghori, a'r galwadau am hynny gan y rhanddeiliaid, rydym yn credu y dylai'r Gweinidog geisio diwygio'r Bil i'r perwyl hwn.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ymestyn y paramedrau yn adran 32(3) i'r corff cynghori ar y newid yn yr hinsawdd.**

## Adrodd, Monitro a Chraffu

138. Mae'r mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn galw am gryfhau ac egluro'r mecanweithiau yn y Bil ynglŷn ag adrodd, monitro a chraffu. Ceir cefnogaeth gref o blaid cynnwys mecanwaith ar gyfer adroddiadau blynyddol, fel sy'n wir ar hyn o bryd yn achos Deddf Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig, Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru a'r targedau anstatudol presennol. Mae tystiolaeth Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn nodi na fyddai adroddiadau blynyddol gan Lywodraeth Cymru'n arbennig o feichus, gan fod allyriadau blynyddol Cymru gyfan yn cael eu darparu bob blwyddyn gan adroddiad y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol.[64]

139. O ran adroddiadau blynyddol, yn ei dystiolaeth ef, dywedodd y Gweinidog ei fod wrthi'n ystyried y cysylltiadau rhwng y Bil a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a beth fydd yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau a ble. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn anfodlon cyflwyno adroddiad blynyddol ar y sail ei fod yn teimlo bod angen ffurfio barn dros gyfnod hirach o amser er mwyn rhoi gwir adlewyrchiad o'r cynnydd. Er hynny, awgrymodd y byddai'n parhau i gyflwyno adroddiadau blynyddol ar darged 2020, gan ddweud ei fod yn hyblyg ynglŷn ag adroddiadau yn y dyfodol.[65]

[64] EB 20 Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
[65] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 225-38

***Ein barn ni***

140. Byddai adroddiad blynyddol ar y cynnydd yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer monitro'r cynnydd. Rydym yn cydymdeimlo â safbwynt y Gweinidog ac yn derbyn y gallai cymryd un flwyddyn ar ei phen ei hun roi darlun camarweiniol. Er hynny, gan nad yw'r cylch cyflwyno adroddiad yn caniatáu gwaith craffu gwybodus ar berfformiad y llywodraeth sydd mewn grym, rydym yn credu y byddai adroddiad blynyddol yn dod â haen o dryloywder ac atebolrwydd i'r broses.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad blynyddol ar y cynnydd tuag at darged 2050.**

141. O ran cysylltiadau â ddeddfwriaeth arall, mae'r rhanddeiliaid yn gofyn am eglurder ynghylch y berthynas rhwng y gofynion ynglŷn ag adroddiadau o dan y Bil hwn ac o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

142. Mae angen i'r berthynas rhwng y Bil hwn a Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn gliriach. Os na fydd dealltwriaeth glir o'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau a ble, mae yna berygl y gallai bylchau ddatblygu yn yr atebolrwydd.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi mwy o eglurder i'r Cynulliad a'r rhanddeiliaid ar sut y caiff y gofynion ynglŷn ag adroddiadau yn y Bil hwn ac yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol eu cydlynu.**

**Hedfan a Morgludiant**

143. Argymhellodd Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd y dylai allyriadau o hedfan a morgludiant gael eu rhannu'n dri chategori o leiaf: yr allyriadau sy'n cael eu hachosi gan deithio yng Nghymru; yr allyriadau sy'n cael eu hachosi gan deithio o amgylch y Deyrnas Unedig ac o bosibl o amgylch Ewrop; ac allyriadau byd-eang sy'n cael eu hachosi gan bobl sy'n teithio ymhellach i ffwrdd.[66] Awgrymodd y pwyllgor y gallai cyllidebau carbon Cymru roi ystyriaeth i gynnwys allyriadau ar gyfer teithio yn y Deyrnas Unedig, gan fod y rheiny wedi'u cynnwys yng nghyllideb y Deyrnas Unedig.[67] Roedd tystiolaeth lafar Canolfan Tyndall o blaid cynnwys allyriadau hedfan a

[66] Cofnod y Trafodion 2 Gorffennaf 2015 c.607
[67] Ibid c.608

morgludiant rhyngwladol o'r cychwyn, gan ddweud bod angen gwneud iawn am unrhyw gynnydd yn allyriadau'r sectorau hyn drwy dorri mwy ar allyriadau mewn mannau eraill. Dywedodd y Dr Wood o Ganolfan Tyndall wrthon ni fod y ganolfan wedi bod yn gwneud ymchwil ynghylch opsiynau ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gymryd allyriadau hedfan a morgludiant i ystyriaeth yn ei chyllidebau a'i thargedau.[68]

144. Mae'r rhanddeiliaid wedi nodi hefyd fod cyllidebau carbon presennol y Deyrnas Unedig wedi'u gosod ar lefel a fyddai'n caniatáu i allyriadau hedfan a morgludiant gael eu cynnwys yn nes ymlaen.

***Ein barn ni***

145. Dydyn ni ddim yn bychanu'r dasg o gymryd allyriadau hedfan a morgludiant i ystyriaeth, ond cyhyd ag y bo modd eu cyfrif mewn modd teg rydym yn credu y dylen nhw gael eu cynnwys.

146. Dywedodd Canolfan Tyndall wrthon ni eu bod nhw eisoes wedi dechrau gweithio ar fethodoleg ar gyfer gwneud y cyfrifiad hwn ar sail Cymru yn unig.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud â Chanolfan Tyndall gyda golwg ar edrych ymhellach ar gynnwys allyriadau hedfan a morgludiant wrth osod cyllidebau a thargedau carbon gan adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar ei hystyriaethau ar argymhellion Canolfan Tyndall.**

### Corff cynghori

147. Mae yna gefnogaeth gyffredinol i weld Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn gweithredu fel corff cynghori i Lywodraeth Cymru. Roedd y rhanddeiliaid yn bendant eu barn bod angen i'r corff cynghori fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Ceir cefnogaeth hefyd i barhau rôl Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd fel fforwm i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid. Pwysleisiodd tystiolaeth gan fusnesau ei bod yn hanfodol bod y corff cynghori'n cynrychioli barn yr holl randdeiliaid sydd â buddiant yn hyn o beth, gan gynnwys diwydiant.

148. Galwodd y rhanddeiliaid am eglurder ynghylch rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth gynghori Llywodraeth Cymru ar newid yn

---

[68] Cofnod y Trafodion 8 Gorffennaf 2015 c.35

yr hinsawdd, ac ynghylch rolau penodol Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a Phwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd.

***Ein barn ni***

149. Rydym yn cefnogi'r alwad hon a hoffem gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Phwyllgor y Deyrnas Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cydadweithio â'i gilydd.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog nodi sut y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r corff cynghori ar newid yn yr hinsawdd yn cydadweithio â'i gilydd.**

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog nodi sut y mae'n gweld dyfodol Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.**

**Addasu**

150. Cafodd pryderon eu mynegi gan nifer o'r rhanddeiliaid ynghylch diffyg mesurau ar gyfer addasu at newid yn yr hinsawdd yn Rhan 2 o'r Bil.[69] Mae rhai'n galw ar i Lywodraeth Cymru gynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun addasu cenedlaethol gael ei gyhoeddi, ac awgrymodd nifer y gallai'r NNRP gyflawni'r swyddogaeth hon. Er eu bod yn derbyn y bydd angen i'r NNRP ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd o ran rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac y bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried y goblygiadau hirdymor o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae CNC yn dweud ei bod yn bosibl na fydd y cynlluniau hyn yn cynnwys rhai sectorau, megis ynni.[70] Mae Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn dweud bod y diffyg cyfeiriad at addasu yn y Bil yn cyferbynnu'n lliwyr â'r dogfennau tebyg gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Gogledd Iwerddon a'r Alban[71]

151. Yn ei lythyr aton ni ar 3 Medi, mae'r Gweinidog yn dweud nad oes darpariaethau yn y Bil i ymdrin ag addasu gan fod mecanweithiau eraill ar gael yn y Bil ac mewn ddeddfwriaeth arall i ymdrin ag addasu, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn dweud bod rhaid i'r NNRP gynnwys camau a ddylai gael eu cymryd ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd o ran

[69] EB 11 RSPB; EB 20 CCCW; EB 35 WEL
[70] EB 41 CNC
[71] EB 20 CCCW

rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, a fydd yn cynnwys addasu a lliniaru o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd[72]

***Ein barn ni***

152. Mae'r Gweinidog wedi rhoi sicrwydd inni fod pob agwedd ar addasu yn cael ei thrin mewn mecanweithiau sydd eisoes yn bod.[73] Gallwn weld bod hynny'n wir ynghylch rhai, ond nid yw'n eglur inni fod pob agwedd wedi cael sylw yn y mecanweithiau presennol, er enghraifft, addasu'r sector ynni neu seilwaith sy'n arwyddocaol yn genedlaethol megis seilwaith allweddol rheilffyrdd a dŵr.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu rhestr o'r mecanweithiau y mae'n cyfeirio atyn nhw ochr yn ochr â disgrifiad o'r agweddau ar addasu y maen nhw'n ymdrin â nhw er mwyn inni asesu pa mor llydan a dwfn yw'r ymdriniaeth.**

---

[72] Llythyr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Bil yr Amgylchedd (Cymru)*, 3 Medi 2015
[73] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.268-9

# 4. Rhan 3: Bagiau Siopa

153. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, barn gymysg a gafwyd o ran ymestyn yr ardoll i fathau eraill o fagiau. Er bod nifer o'r rhanddeiliaid gan gynnwys WEL a CLlLC o blaid ei hymestyn,[74] mae cyrff masnachol yn mynegi pryder y gallai symud i daliadau newidiol fynd yn groes i'r bwriad, gan yrru defnyddwyr yn ôl at ddefnyddio bagiau untro, a pheryglu ewyllys da'r cyhoedd.[75]

154. Ceir gwahaniaeth barn hefyd o ran i ble y dylai'r enillion gael eu cyfeirio, er bod y mwyafrif o'r ymatebion o blaid eu cyfeirio at achosion amgylcheddol. Mae yna gefnogaeth gyffredinol hefyd i gyfeirio'r enillion at sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru.

155. Mae tystiolaeth y rhanddeiliaid masnachol yn galw am barhau â'r esemptiadau i fusnesau bach (sef ar hyn o bryd y rhai sydd â llai na 10 o weithwyr cyflogedig) rhag y gofynion ynghylch cadw cofnodion, gyda'r FSB yn galw am ymestyn yr esemptiad i bob menter fach a chanolig (cwmnïau a chanddynt lai na 250 o weithwyr cyflogedig).[76]

156. Yn ei dystiolaeth lafar, amlinellodd y Gweinidog ei gred bod y cynigion yn y Bil yn angenrheidiol gan fod yna fylchau yn y system bresennol.[77] O ran cyfeirio'r enillion, dywedodd y Gweinidog nad yw'n awyddus i ymyrryd mewn democratiaeth leol os yw'r cyllid eisoes yn cael ei gyfeirio at elusennau heblaw rhai amgylcheddol.[78]

157. Datgelodd tystiolaeth lafar yr awdurdodau lleol bryderon o ran sut y câi'r cynigion eu gweinyddu, gan gynnwys costau i lywodraeth leol, a pha mor hawdd i'w gorfodi fydd y cynigion. Maen nhw'n pwysleisio bod angen cymharu'r fantais bosibl â'r baich gweinyddol.[79] Nid yw'r RIA yn nodi pwy fyddai'n gyfrifol am orfodi'r cynigion.

158. Gofynnodd ein harolwg i'r ymatebwyr ddweud a ddylai'r enillion gael eu cyfeirio at achosion amgylcheddol neu at bob math o elusen; dywedodd 72 y cant o'r ymatebwyr elusennau amgylcheddol,

---

[74] EB 22 WLGA; EB 35 Cyswllt Amgylchedd Cymru
[75] EB 44 Consortiwm Manwerthu Prydain
[76] EB 17 Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB)
[77] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.276
[78] Ibid c.284
[79] Cofnod y Trafodion 8 Gorffennaf 2015 c.75

dywedodd 26 y cant bob elusen a doedd 2 y cant ddim yn gwybod. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud hefyd a ddylai Llywodraeth Cymru godi tâl ar amrediad ehangach o fagiau siopa; atebodd 28 y cant o'r ymatebwyr y dylai, dywedodd 67 y cant na ddylai a doedd 6 y cant ddim yn gwybod.

***Ein barn ni***

159. Er ein bod yn gofidio o glywed nad oedd rhywfaint o'r enillion o'r tâl presennol am fagiau siopa untro yn cyrraedd achosion elusennol, rydym yn deall mai pryder ynglŷn â lleiafrif yw hwn. Mae'r mwyafrif o fusnesau, mân a mawr, wedi creu cysylltiadau ag elusennau ac achosion da yn lleol ac mae'r enillion wedi'u cyfeirio atyn nhw.

160. Rydym yn cydymdeimlo â'r alwad am gyfeirio'r enillion at elusennau amgylcheddol yn unig. Er hynny, rydym yn credu bod yna risg o ddileu rhywfaint o'r ewyllys da sydd wedi'i chreu ynglŷn â'r cynllun presennol pe bai'n ofynnol i fusnesau fynd ati ar unwaith i dorri'r cysylltiadau y maen nhw wedi'u creu ag achosion lleol nad ydyn nhw'n amgylcheddol o ran eu natur.

161. Ar y cyfan, rydym yn credu y dylai'r cynllun presennol gael ei adael fel y mae. Er nad yw'n berffaith, mae wedi llwyddo i leihau nifer y bagiau siopa untro sy'n cael eu defnyddio. Gallai newidiadau sylweddol yn y cynllun presennol arwain at ganlyniadau anfwriadol.

162. Mae un agwedd ar y cynllun presennol a chynllun y dyfodol a allai gael ei gwella yn ymwneud â thryloywder o ran ble mae'r enillion yn mynd. Awgrymwyd y dylai busnesau ddangos arwydd yn dangos at ba achos elusennol y mae'r enillion o'r tâl yn cael eu cyfeirio.

**Er gwaethaf ein sylwadau uchod, ar gyfer unrhyw estyniad ar y cynllun, e.e. i fagiau am oes, rydym yn argymell y dylai'r enillion hyn gael eu cyfeirio at elusennau sydd â chylch gorchwyl amgylcheddol. Ymhellach, os oes modd, dim ond at elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru y dylen nhw gael eu cyfeirio.**

163. Wrth ddod i'r casgliadau hyn, rydym yn cydnabod y bydd y lefel manylder hon yn dod drwodd mewn unrhyw reoliadau y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu eu cynnig yn y dyfodol. Mae'n bosibl diwygio'r Bil er mwyn sefydlu'r cyfyngiadau uchod. Rydyn ni wedi gwrthsefyll argymell hyn am ein bod yn fodlon gadael hyn ar

gyfer is-ddeddfwriaeth ac i ragoriaethau'r rheoliadau gael eu hystyried ar yr adeg honno yn y broses graffu.

# 5. Rhan 4: Casglu a gwaredu gwastraff

### *Gwahanu gwastraff*

164. Datgelodd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig wahaniaeth barn ar y cynigion i ymestyn y gofynion ynghylch gwahanu gwastraff i fangreoedd annomestig. Er bod rhai rhanddeiliaid o blaid y cynigion ac yn dweud y byddan nhw'n darparu fframwaith clir ac ymarferol, mae eraill o'r farn y byddan nhw'n faich ychwanegol ar fusnesau bach, yn arbennig o ran y lle sydd ar gael ar gyfer storio a didoli gwastraff. Mae lawer o'r rhanddeiliaid yn awgrymu y byddai dull gwirfoddol yn fwy effeithiol na deddfwriaeth. Er hynny, dywedodd WRAP Cymru fod y dull gwirfoddol, yn eu profiad nhw, yn ddeniadol i rai busnesau, ond nad yw o reidrwydd yn gymhelliant digonol i bawb. [80]

165. Er bod yr awdurdodau lleol, yn gyffredinol, o blaid gosod gofynion ynglŷn â gwahanu gwastraff ar fangreoedd annomestig, roedden nhw'n pwysleisio'n gryf fod angen sicrhau bod unrhyw ofynion ynglŷn â gwahanu gwastraff yn cyd-fynd â'r gwasanaethau casglu sy'n cael eu cynnig mewn awdurdod, sef barn a ategwyd gan yr FSB.[81] Er bod y rheoliadau ynglŷn â gwahanu gwastraff sy'n llywodraethu casgliadau gwastraff yr awdurdodau lleol yn dod o dan y prawf 'ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd' (TEEP), sef eu bod yn gymwys cyhyd â'u bod yn ymarferol o safbwynt technegol, economaidd ac amgylcheddol, nododd rhai o'r rhanddeiliaid nad oes cynnig hyd yn hyn i gynnwys y prawf hwn yn y rheoliadau yn y Bil hwn.

166. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog mai codi safon y gwaith gwahanu deunyddiau, ystyried deunyddiau eraill a allai gael eu hadennill a rhoi mwy o eglurder oedd diben y cynigion yn y Bil.[82] Mae'n rhag-weld y bydd y cynigion yn cysoni gwaith casglu gwastraff annomestig ag arferion casglu gwastraff trefol.[83] Yn ei lythyr aton ni ar 3 Medi, mae'n dweud y bydd darpariaethau'r Bil yn cynyddu

[80] Cofnod y Trafodion 8 Gorffennaf 2015 c.311
[81] Ibid c.102
[82] Cofnod y Trafodion 24 Mehefin 2015 c.311
[83] Ibid c.318

cystadleurwydd busnesau Cymru, er ei fod yn cydnabod y gall fod cynnydd yng nghostau rhai busnesau. Yn ychwanegol, mae'r llythyr yn dweud y bydd y rheoliadau'n gymesur ac yr ystyrir a ddylai hyn gael ei wneud drwy gadw at y prawf TEEP wrth i reoliadau gael eu datblygu o dan y ddarpariaeth hon.[84]

167. Gofynnodd ein Tîm Estyn Allan i'r ymatebwyr a ddylai fod yn ofynnol i bob busnes a chartref yng Nghymru wahanu eu deunyddiau ailgylchu a'u gwastraff. Mewn ymateb, dywedodd 91 y cant y dylai fod yn ofynnol, dywedodd 7 y cant na ddylai a doedd 2 y cant ddim yn gwybod. O holi a ddylai'r un rheolau fod yn gymwys i fusnesau mawr a busnesau bach, dywedodd 88 y cant y dylen nhw, dywedodd 8 y cant na ddylai a doedd y gweddill ddim yn gwybod.

### *Ein barn ni*

168. Ar ôl ystyried y sylwadau a gyflwynwyd inni, mae dau bryder allweddol yn aros. Y cyntaf yw y gallai'r cynigion hyn osod pwysau ychwanegol ar fusnesau bach. Yr ail yw bod yna risg, os na chaiff y prawf TEEP ei gynnwys mewn rheoliadau, y bydd y gofynion ynglŷn â gwahanu gwastraff yn anghyson â'r trefniadau casglu mewn ardal benodol.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gymorth y bydd yn ei roi i fusnesau bach i'w helpu i fodloni unrhyw ofynion newydd ynglŷn â gwahanu gwastraff.**

**Rydym yn argymell y dylai unrhyw reoliadau a fydd yn cael eu cyflwyno o dan adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (a fewnosodir gan adran 66 o'r Bil) gynnwys y prawf TEEP.**

### Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos

169. Ceir rhywfaint o gefnogaeth i waharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd. Mae WRAP Cymru o blaid y cynigion, gan ddweud yn eu tystiolaeth lafar y byddai'n gwella gweledd gwastraff bwyd, ac y câi'r gwastraff ei brosesu ar safleoedd treulio anerobig i greu gwres

[84] Llythyr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Bil yr Amgylchedd (Cymru), 3 Medi 2015

a phŵer, ac er mwyn i'r cynnyrch gael ei ddefnyddio ar y tir.[85] Mae Cadwch Gymru'n Daclus hefyd o blaid y gwaharddiad arfaethedig.[86]

170. Mae cryn bryder ynghylch effeithiau economaidd y gwaharddiad wedi'i fynegi yn y dystiolaeth ysgrifenedig gan gwmnïau sy'n darparu offer bio-dreulio ac offer mwydo i'r diwydiant arlwyo a'r sector cyhoeddus. Mae'r sefydliadau hyn yn dweud bod y ffigurau sydd wedi'u defnyddio yn yr RIA ar yr arbedion cost y byddai'r gwaharddiad yn eu sicrhau yn 'anghywir yn y bôn'. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae AMEDA yn dweud bod adroddiad gan Eunomia i ategu'r RIA sy'n cyd-fynd â'r Bil yn cynnwys 'serious misapprehensions, unsupported by science'.[87] Mae Mechline Ltd a Biological Preparations Ltd yn dweud mai ar offer mwydo traddodiadol yn unig yr edrychodd adroddiad Eunomia ac nid ar fio-dreulyddion ensymau na systemau sy'n adennill dŵr o fwydydd. Mae'r ddau yn amlinellu yn eu tystiolaeth fod bio-dreulyddion ensymau wedi sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor Ymchwil Dŵr am eu bod yn ddiogel 100 y cant i'w harllwys i'r garthffos gyhoeddus.[88]

171. Mae'r ddau gwmni hyn yn dweud y bernir mai Cymru sydd ar hyn o bryd yn arwain y farchnad hon ar lefel y Deyrnas Unedig a'r UE yn y dechnoleg hon ac y gallai'r gwaharddiad fygwth 62 o swyddi yn eu safle gweithgynhyrchu yng Nghaerffili a'u prif swyddfa yng Nghaerdydd.

172. Mae Cymdeithas y Cyflenwyr Offer Arlwyo (CESA) yn dweud bod yr RIA sy'n cyd-fynd â'r Bil wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth wallus mai gwastraff bwyd i garthffosydd sy'n gyfrifol am gau carthffosydd er bod ymchwil gan gwmnïau dŵr wedi dangos bod ffactorau eraill yn fwy arwyddocaol (er enghraifft cewynnau untro, cynhyrchion mislif, olew, saim a braster).[89] O ran iechyd y cyhoedd, mae'r cyrff masnachol yn amlinellu bod defnydd y sector arlwyo ar waredwyr gwastraff bwyd hefyd yn lleihau'r risgiau perthynol o storio gwastraff bwyd i gael ei gasglu (e.e. arogleuon a fermin) ac yn lleihau'r demtasiwn i rai busnesau dipio'u gwastraff bwyd yn anghyfreithlon.[90]

---

[85] Cofnod y Trafodion 8 Gorffennaf 2015 c.341
[86] EB 04 Cadwch Gymru'n Daclus
[87] EB 14 Cymdeithas y Gwneuthurwyr Offer Domestig (AMEDA)
[88] EB 37 Mechline; EB 30 Cymdeithas y Cyflenwyr Offer Arlwyo (CESA)
[89] Ibid (CESA)
[90] Ibid

173. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Dŵr Cymru'n dweud y byddai o blaid gwaharddiad pe bai'r diffiniad o wastraff bwyd yn y Bil yn cynnwys braster, olew a saim.[91]

174. Mae llawer o'r rhanddeiliaid, gan gynnwys Cylch a CIWM yn amau a oes modd gorfodi gwaharddiad,[92] sef barn nad yw'r Gweinidog yn ei rhannu. Mae CNC yn dweud nad yw'n credu y dylai fod yn ofynnol i CNC orfodi unrhyw waharddiad, gan awgrymu yn hytrach y byddai Arolygwyr Safonau Bwyd a Hylendid mewn gwell sefyllfa gan eu bod nhw eisoes yn ymweld â'r mangreoedd.[93]

175. Roedden ni wedi deall mai atal problemau yn y system garthffosydd wrth i wastraff bwyd gael ei waredu oedd un o leiaf o nodau'r adran hon. Er hynny, ar 29 Medi 2015, cawsom lythyr gan y Gweinidog a nododd fwriad gwahanol:

> "[…] diben y gwaharddiad a gynigir o ran ei ryddhau i'r garthffos yw sicrhau bod cymaint â phosib o wastraff bwyd ar gael i gynhyrchu ynni a gwrtaith o ansawdd da. Nid yw diogelwch y weithred o ryddhau gwastraff sydd wedi ei drin i'r garthffos yn fater i'w ystyried, er bod hynny'n ystyriaeth bwysig i'r awdurdodau dŵr."[94]

### *Ein barn ni*

176. Nid yw'r Llywodraeth wedi ymgynghori'n ddigonol â'r cyrff busnes a'r cyrff masnach y bydd unrhyw waharddiad ar waredu gwastraff bwyd i'r garthffos yn effeithio'n fwyaf arnyn nhw. Nid yw'r RIA wedi cymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth y gallai fod wedi'i hystyried. Cafwyd datblygiadau yn y technolegau sy'n cael eu defnyddio a gallai nifer sylweddol o swyddi gael eu colli yng Nghymru pe bai yna waharddiad.

177. Cawsom ein calonogi bod y Gweinidog wedi cymryd camau, ac y bydd yn parhau i gymryd camau, i ymwneud yn adeiladol â'r diwydiant a bod y drws yn dal yn agored o ran esemptiadau posibl rhag y gwaharddiad.

---

[91] EB 54 Dŵr Cymru
[92] EB 48 Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM)
[93] Cofnod y Trafodion 8 Gorffennaf 2015 c.447
[94] Llythyr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Bil yr Amgylchedd (Cymru), 29 Medi 2015

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ymwneud â'r cynrychiolwyr busnes a diwydiant sydd wedi cyflwyno sylwadau inni ynghylch y gwaharddiad ac y dylai ddiwygio'r RIA i gymryd i ystyriaeth y technolegau diweddaraf sy'n cael eu defnyddio – yn enwedig felly y rhai sy'n bodloni safonau'r Cyngor Ymchwil Dŵr.**

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried yr achos o blaid esemptio offer sy'n bodloni safonau'r Cyngor Ymchwil Dŵr.**

178. Un maes y mae angen rhagor o eglurder ynddo yw a yw'r esemptiad ar gyfer gwastraff sydd wedi'i gymysgu â dŵr neu unrhyw hylif arall sy'n cael ei ddefnyddio at lanhau mor eang nes y byddai'n caniatáu i rai o'r sylweddau mwyaf niweidiol fel olew, braster a saim barhau i gael eu harllwys i'r carthffosydd (gweler yr adran 34D(5) newydd arfaethedig i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sydd i'w mewnosod gan adran 67 o'r Bil).

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried a fydd yr esemptiad yn adran 67 ar gyfer gwastraff wedi'i gymysgu â dŵr neu unrhyw hylif arall sy'n cael ei ddefnyddio at lanhau yn caniatáu i olew, braster a/neu saim gael eu gwaredu mewn carthffosydd dim ond am fod y sylweddau hynny wedi'u troi'n emwlsiwn yn ystod proses lanhau. Os oes unrhyw amheuaeth, rydym yn argymell y dylai ailedrych ar sut mae'r esemptiad wedi'i ddrafftio.**

179. Un cwestiwn sy'n dal heb ei ateb yw gorfodi unrhyw waharddiad. Mae'n glir nad yw CNC yn gweld hyn fel tasg ychwanegol yr hoffai ei chyflawni. Ar ben hynny, nid yw costau gorfodi'r gwaharddiad yn effeithiol wedi cael eu hegluro.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynigion ynghylch gorfodi'r gwaharddiad yn fanylach, gan gynnwys y corff a fydd yn gyfrifol am ei orfodi, ac y dylai hyn gynnwys amcangyfrif o gost gorfodi gwaharddiad.**

### Gwahardd llosgi deunyddiau penodol

180. Fel yn achos agweddau eraill ar y Bil, barn gymysg a gafwyd ynglŷn â'r cynigion, gan fod rhai sefydliadau gan gynnwys CNC o blaid y gwaharddiad, a bod sefydliadau masnachol a rhai o'r awdurdodau lleol yn ei erbyn. Mae pryderon wedi'u mynegi ynglŷn â'r angen am waharddiad o'r fath ac ynglŷn â'r cyfleusterau/marchnad ar gyfer

deunyddiau ailgylchadwy gwael na fyddai'n gallu cael eu hanfon i'w losgi mwyach. Dywedodd nifer o'r rhanddeiliaid y dylid gwahaniaethu rhwng llosgi ac ynni o wastraff.

181. Mynegodd rhanddeiliaid diwydiannol bryderon cryf y gallai'r gwaharddiad fygwth dyfodol cyfleusterau ynni wastraff yng Nghymru, yn arbennig felly ar adeg pan fo cryn fuddsoddi wedi bod mewn seilwaith ynni o wastraff. Mae canlyniadau anfwriadol, megis allforio gwastraff i Loegr ac ymhellach i ffwrdd i gael ei drin hefyd wedi'u henwi gan y rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae'r CIWM yn nodi bod Cymru ar hyn o bryd yn allforio deunyddiau eilaidd ac yn mewnforio deunyddiau crai, a bod angen mynd i'r afael â'r cydbwysedd.[95]

182. Gofynnodd ein harolwg i'r ymatebwyr ddweud a ddylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o bwerau i atal deunyddiau ailgylchadwy rhag cael eu hanfon i gael eu llosgi. Dywedodd 88 y cant o'r ymatebwyr y dylai, dywedodd 4 y cant na ddylai a doedd y gweddill ddim yn gwybod.

### *Ein barn ni*

183. At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r darpariaethau hyn gan y gallai gwahardd deunyddiau penodol rhag cael eu llosgi fod yn ddull effeithiol o sbarduno cyfraddau ailgylchu uwch yn y dyfodol. Er hynny, mae ar y diwydiant angen eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar sawl mater, a'r amlycaf o'r rhain yw pwy fyddai'n gyfrifol am wahanu gwastraff a pha fathau o ddeunyddiau a fyddai'n cael eu cynnwys mewn gwaharddiad. Mae gweithredwyr cyfleusterau llosgi'n pryderu bod eu gwaith nhw wedi'i gynllunio o gwmpas derbyn gwastraff sydd eisoes wedi'i wahanu. Maen nhw'n credu mai cyflenwr y gwastraff i'r cyfleuster a ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau ei fod wedi cael ei wahanu'n gywir.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro pwy fydd yn gyfrifol am wahanu'r gwastraff, hynny yw ai cludwyr y gwastraff ynteu gweithredwyr y llosgydd.**

[95] EB 48 CIWM

## 6. Rhan 5: Pysgodfeydd ar gyfer Pysgod Cregyn

184. At ei gilydd, mae'r rhanddeiliaid yn fodlon ar y cynigion yn Rhan 5 o'r Bil ond maen nhw wedi cynnig awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ac eglurhad. Mae'r sefydliadau amgylcheddol yn amlinellu yn eu tystiolaeth nhw eu bod yn credu bod y diffiniad o niwed yn y Bil yn rhy gul. Maen nhw wedi galw am ehangu'r diffiniad o niwed i gyfeirio at 'risg o effaith andwyol' i Safle Morol Ewropeaidd gan orchymyn pysgodfeydd ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynllun neu brosiect arall. Mae'r sefydliadau'n dadlau bod angen y gwelliant hwn er mwyn cysoni'r Bil â'r ddeddfwriaeth bresennol ar safleoedd gwarchodedig yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.[96]

185. Mae CNC a Llywodraeth Cymru'n dweud nad oes angen hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn hyderus y gallai roi hysbysiad diogelu safle, ar yr amod bod modd dangos 'cysylltiad achosol' rhwng gweithrediadau'r bysgodfa a niwed i safle morol. Mae hi hefyd yn fodlon bod y darpariaethau yn Rhan 5 yn bodloni'r gofynion yn neddfwriaeth yr UE bod rhaid cadw at yr egwyddor ragofalus.[97]

186. Clywsom bryder gan y diwydiant ynghylch sut y câi'r darpariaethau yn Rhan 5 eu dehongli a'u cymhwyso gan Weinidogion Cymru. Er enghraifft, cafwyd pryder ynghylch sut y câi niwed ei briodoli a sut y câi cyfrifoldeb neu gamau adfer eu dyrannu. Cafwyd pryder hefyd ynglŷn ag ystyr 'camau priodol at ddibenion amddiffyn yr amgylchedd morol' yn ymarferol. Awgrymodd CNC yn ei dystiolaeth lafar y gall fod angen canllawiau i roi eglurder a sicrwydd i fusnesau pysgodfeydd cregyn ynghylch sut y caiff y pwerau eu rhoi ar waith.[98]

187. Mae sefydliadau amgylcheddol wedi galw am ddiwygio'r Bil er mwyn peri bod methu cydymffurfio â hysbysiad diogelu safle'n drosedd. Byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu gorchymyn pysgodfeydd neu gymryd camau adfer a fyddai'n angenrheidiol o dan yr hysbysiad diogelu safle ei hun ac adennill costau gwneud hynny, ond mae WEL yn dadlau bod trosedd yn

---

[96] EB 35 WEL
[97] Llythyr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Bil yr Amgylchedd (Cymru)*, 4 Medi 2015
[98] Cofnod y Trafodion 16 Gorffennaf 2015 c.117

darbwyllo'n well. Mae'n dweud bod profiad ynglŷn â deddfwriaeth arall wedi dangos bod cyrff cyhoeddus yn annhebyg o gymryd camau adfer os ydyn nhw'n credu bod yna siawns na fyddan nhw'n adennill y costau oddi ar y gweithredwr. Mae WEL yn cyfeirio hefyd at feysydd eraill yn y gyfraith amgylcheddol megis y gyfraith ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig lle mae difrodi safle'n fwriadol yn drosedd.[99] Mae CNC yn amlinellu ei gred bod y sancsiynau yn y Bil yn ddigon o ataliad ac nad oes angen troi at sancsiynau troseddol.[100]

### *Ein barn ni*

188. Gellid mynd i'r afael â llawer o'r pryderon sydd wedi'u mynegi gan y diwydiant pysgodfeydd cregyn pe bai Llywodraeth Cymru'n darparu rhagor o ganllawiau.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i'r diwydiant ar sut y caiff y darpariaethau yn y Bil eu cymhwyso a'u dehongli.**

189. Ceir gwahaniaeth barn o ran a ddylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn peri bod methu cydymffurfio â hysbysiad diogelu safle yn drosedd. Mae WEL Marine Link wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol inni sy'n cynnig achos da dros wneud hyn,[101] ond rydym yn ymwybodol o'r effeithiau posibl y gallai hynny eu creu ar y diwydiant. Rydyn ni hefyd yn nodi barn CNC nad oes angen troi at sancsiynau troseddol.

190. Mae hyn yn bwynt pwysig a cheir dadleuon da ar ddwy ochr y drafodaeth. Rydyn ni heb ffurfio barn ar hyn, ond rydym yn credu y byddai'n fuddiol pe bai'r Gweinidog yn ystyried y pwynt ymhellach cyn i'r trafodion ynglŷn â'r Bil ddod i ben.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried a ddylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn peri bod methu cydymffurfio â hysbysiad diogelu safle yn drosedd ac y dylai gyhoeddi ei safbwynt ynglŷn â hyn.**

---

[99] EB 35 WEL ac E&S(4)-24-15 Papur 10, *WEL – Additional information, Part 5*, 16 Medi 2015
[100] Cofnod y Trafodion 16 Gorffennaf 2015 c.443
[101] Gweler Papur 10 a oedd ynghlwm wrth yr agenda ar gyfer ein cyfarfod ar 16 Medi 2015

# 7. Rhan 6 Trwyddedu Morol

191. Ceir cefnogaeth eang i'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil i roi pwerau i Weinidogion Cymru neu i gorff, megis CNC, yn gweithredu ar eu rhan, i godi ffioedd am amrediad ehangach o wasanaethau mewn perthynas â'i swyddogaethau trwyddedu morol. Er hynny, mae'r gefnogaeth i godi ffioedd ychwanegol wedi'i seilio ar allu CNC i ail-fuddsoddi'r arian a godir yn ei wasanaethau trwyddedu morol a chynghori. Mae'r rhanddeiliaid wedi galw hefyd am i'r broses o osod lefelau'r ffioedd fod yn dryloyw ac i CNC fod yn atebol am ei berfformiad. Mae rhai yn awgrymu y dylai hyn gael ei wneud drwy gyflwyno amserlenni statudol ar gyfer penderfynu ar drwyddedau morol ac mae eraill yn awgrymu y gallai gael ei wneud drwy ei gwneud yn ofynnol i CNC gyflwyno adroddiadau cyhoeddus ynghylch dangosyddion perfformiad allweddol y cytunir arnyn nhw.

192. Cafodd awgrymiadau eu gwneud y dylai Llywodraeth Cymru a CNC ystyried cyflwyno cyfraddau fesul awr yn lle lefelau ffioedd gosod am bob cais. Mae WEL a Marine Energy Pembrokeshire yn dweud y gallai rhagor gael ei wneud yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i geiswyr gyhoeddi'r data y maen nhw wedi'i gasglu drwy'r broses ymgeisio ar ôl i'r cais gael ei benderfynu.[102] Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wrthi'n ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y gyfundrefn ffioedd arfaethedig newydd ac y bydd yn cyhoeddi ymgynghoriad ffurfiol ar reoliadau newydd ar ôl i'r Bil gael ei basio.

193. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd incwm o'r ffioedd yn cael ei gadw, yn achos y ffioedd presennol a'r pwerau estynedig i godi ffioedd sydd wedi'u nodi yn Rhan 6 o'r Bil. Gosododd amod ynglŷn â hyn drwy dynnu'n sylw at y ffaith bod hyn yn dibynnu ar sicrhau cymeradwyaeth yn unol â'r darpariaethau ariannol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.[103]

194. Mae'r Gweinidog wedi rhoi manylion ychwanegol ynglŷn â'r trefniadau hyn yn ei lythyr aton ni ar 29 Medi 2015.[104]

---

[102] EB 35 WEL; EB 32 Marine Energy Pembrokeshire
[103] Cofnod y Trafodion 16 Medi 2015 c.255
[104] Llythyr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Bil yr Amgylchedd (Cymru), 29 Medi 2015

***Ein barn ni***

195. Rydym yn cefnogi'r rhan hon o'r Bil ac mae'n dda gennym fod y darpariaethau hyn wedi ennyn cefnogaeth eang gan y rhanddeiliaid. Bydd yn hanfodol ymgynghori'n gywir ynghylch y gyfundrefn ffioedd newydd ac rydym yn credu y gallai fod yn ddefnyddiol manteisio ar rai o'r awgrymiadau a gyflwynwyd yn ystod ein hystyriaeth ninnau ar y Bil wrth i'r ymgynghoriad gael ei baratoi.

**Wrth gynnal yr ymgynghoriad hwn, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gynnwys cwestiynau ymgynghori ynghylch:**

- **Dangosyddion perfformiad (hynny yw ar gyfer perfformiad yr awdurdod trwyddedu) gan gynnwys amserlenni ar gyfer prosesu ceisiadau;**
- **Sefydlu gofynion ynglŷn â chyhoeddi data;**
- **Sicrhau mecanwaith tryloyw ar gyfer gosod ffioedd, a**
- **Chyflwyno cyfradd fesul awr ar gyfer ffioedd.**

# Atodiad 1

**Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig**

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan y bobl a'r sefydliadau a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=178

| Sefydliad neu unigolyn | Cyfeirnod |
|---|---|
| Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd a'r Aviation Environment Federation | EB 01 |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | EB 02 |
| Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai | EB 03 |
| Cadwch Gymru'n Daclus | EB 04 |
| Valero | EB 05 |
| Ffederasiwn y Diwydiant Paneli Pren | EB 06 |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (Cymru) | EB 07 |
| Wheelabrator Technologies Inc. (UK) | EB 08 |
| Calor Gas Ltd | EB 09 |
| Cymdeithas Genweirwyr Eogiaid a Brithyll Cymru | EB 10 |
| RSPB Cymru | EB 11 |
| Pwyllgor Ymgynghorol Ailgylchu Awdurdodau Lleol | EB 12 |
| Alliance for National Parks Cymru | EB 13 |
| Cymdeithas Gwneuthurwyr Offer Domestig | EB 14 |
| Tata Steel | EB 15 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | EB 16 |
| Ffederasiwn y Busnesau Bach | EB 17 |
| Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru | EB 18 |
| Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU | EB 19 |
| Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd | EB 20 |
| Parciau Cenedlaethol Cymru | EB 21 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | EB 22 |

| | |
|---|---|
| Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol | EB 23 |
| Cymdeithas Siopau Cyfleustra | EB 24 |
| Oxfam Cymru | EB 25 |
| Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg | EB 26 |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd | EB 27 |
| Ymddiriedolaethau Natur Cymru | EB 28 |
| Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF) | EB 29 |
| Catering Equipment Suppliers Association | EB 30 |
| RenewableUK Cymru | EB 31 |
| Ynni Morol Sir Benfro | EB 32 |
| Cyngor Sir Ceredigion | EB 33 |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | EB 34 |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru | EB 35 |
| Cyngor Sir Penfro | EB 36 |
| Mechline Developments Ltd | EB 37 |
| Y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd | EB 38 |
| Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru | PB 39 |
| Cyfeillion y Ddaear Cymru | EB 40 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | EB 41 |
| Confor | EB 42 |
| Atal Anhrefn Hinsawdd | EB 43 |
| Consortiwm Manwerthu Prydain | EB 44 |
| Tidal Lagoon Power | EB 45 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | EB 46 |
| Sefydliad Gwy ac Wysg | EB 47 |
| Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff | EB 48 |
| Viridor | EB 49 |
| Undeb Amaethwyr Cymru | EB 50 |
| NFU Cymru | EB 51 |
| Geoconservation Cymru – Wales | EB 52 |

| | |
|---|---|
| Llinos Price | EB 53 |
| Dŵr Cymru | EB 54 |
| Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain | EB 55 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | EB 56 |
| Biological Preparations Ltd | EB 57 |
| RICARDO-AEA | PB 58 |

# Atodiad 2

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd yn http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8979

| | |
|---|---|
| **24 MEHEFIN 2015** | |
| **Sesiwn 1** | |
| Carl Sargeant AC | Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd |
| Rhodri Asby | Llywodraeth Cymru |
| Andy Fraser | Llywodraeth Cymru |
| Jasper Roberts | Llywodraeth Cymru |
| Helena Bird | Llywodraeth Cymru |
| Prys Davies | Llywodraeth Cymru |
| Graham Rees | Llywodraeth Cymru |
| John Guess | Llywodraeth Cymru |
| **Sesiwn 2** | |
| Emyr Roberts | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ceri Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sarah Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Steve Cook | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Sesiwn 3** | |
| Yr Athro Robert Lee | Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU |
| Dr Haydn Davies | Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU |
| Dr Victoria Jenkins | Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU |
| **2 GORFFENNAF 2015** | |
| **Sesiwn 4** | |
| Yr Athro Terry Marsden | Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Janet Dwyer | Prifysgol Swydd Gaerloyw |

| | |
|---|---|
| Robert Berry | Prifysgol Swydd Gaerloyw |
| **Sesiwn 5** | |
| Annie Smith | RSPB Cymru |
| Rachel Sharp | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Peter Ogden | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Anne Meikle | WWF Cymru |
| **Sesiwn 6** | |
| Ifer Gwyn | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Neville Rookes | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Sesiwn 7** | |
| Rachel Lewis-Davies | NFU Cymru |
| Dr Nick Fenwick | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Martin Bishop | Confor |
| Karen Anthony | Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru |
| **Sesiwn 8** | |
| Peter Quinn | TATA Steel |
| Richard Leonard | TATA Steel |
| **Sesiwn 9** | |
| Matthew Bell | Y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| Peter Davies | Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| **Sesiwn 10** | |
| Haf Elgar | Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| Jessica McQuade | Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF) |
| **8 GORFFENNAF 2015** | |
| **Sesiwn 11** | |
| Dr. Ruth Wood | Prifysgol Manceinion |

| | |
|---|---|
| **Sesiwn 12** | |
| Alan L Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Andrew Wilkinson | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Chris Howell | Dinas a Sir Abertawe |
| **Sesiwn 13** | |
| Malcolm Williams | Cylch |
| Gill Bell | Cymdeithas Cadwraeth Forol |
| **Sesiwn 14** | |
| Carl Nichols | WRAP Cymru |
| Linda Chrichton | WRAP Cymru |
| Rebecca Colley-Jones | Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff |
| **Sesiwn 15** | |
| Sarah Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Isobel Moore | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Becky Favager | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **16 GORFFENNAF 2015** | |
| **S Sesiwn 16** | |
| Julian Harrison | Wheelabrator Technologies |
| Phil Short | Wheelabrator Technologies |
| Edward Woodall | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Dr Mark Lang | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| **Sesiwn 17** | |
| Scott Fryer | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Gill Bell | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Gareth Cunningham | RSPB Cymru |
| **Sesiwn 18** | |
| Jim Evans | Cymdeithas Pysgotwyr Cymru |

| | |
|---|---|
| James Wilson | Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor |
| **Sesiwn 19** | |
| Mark Russell | Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain |
| David Jones | Ynni Morol Sir Benfro |
| **Sesiwn 20** | |
| Sarah Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| John Wheadon | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Eleanor Smart | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mary Lewis | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **16 MEDI 2015** | |
| **Sesiwn 21** | |
| Carl Sargeant AC | Yr Aelod sy'n gyfrifol |
| Andy Fraser | Llywodraeth Cymru |
| Lori Frater | Llywodraeth Cymru |
| Nicola Charles | Llywodraeth Cymru |